Rhaglen Gyflawn

# CABINET

# CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | Dydd Mawrth, 9fed Ionawr, 2018 |
| **AMSER** | 1.00 y.h. |
| **LLEOLIAD** | Siambr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon LL55 1SH |
| **PWYNT CYSWLLT** | Annes Siôn<br>01286 679490<br>cabinet@gwynedd.llyw.cymru |

## AELODAU CABINET CYNGOR GWYNEDD

| **Aelodau** | |
|---|---|
| Dyfrig L. Siencyn | Arweinydd |
| Mair Rowlands | Dirprwy Arweinydd |
| Craig ab Iago | Aelod Cabinet Tai, Hamdden a Diwylliant |
| Gareth Wyn Griffith | Aelod Cabinet Priffyrdd a Bwrdeistrefol |
| Peredur Jenkins | Aelod Cabinet Cyllid |
| Dafydd Meurig | Aelod Cabinet Amgylchedd |
| Dilwyn Morgan | Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc |
| W. Gareth Roberts | Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant |
| Gareth Thomas | Aelod Cabinet Addysg |
| Ioan Thomas | Aelod Cabinet Datblygu'r Economi |

# RHAGLEN

| | **Eitem** | **Cyflwynir gan** | **Swyddog** | **Tud.** |
|---|---|---|---|---|
| 1 | YMDDIHEURIADAU | | | |
| 2 | DATGAN BUDDIANT PERSONOL | | | |
| 3 | MATERION BRYS | | | |
| 4 | MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU | | | |
| 5 | PRYDLES CANOLFAN HENBLAS Y BALA I GWMNI PUM PLWY PENLLYN | Cyng. Dafydd Meurig | Dafydd Gibbard | 3 - 7 |
| 6 | ADRODDIAD PERFFORMIAD AELOD CABINET DROS BLANT A CEFNOGI TEULUOEDD | Cyng Dilwyn Morgan | Morwena Edwards | 8 - 15 |
| 7 | ADRODDIAD PERFFORMIAD AELOD CABINET DROS ADRAN PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL AC YMGYNGHRIAETH GWYNEDD | Cyng. Gareth Griffith | Dilwyn Williams | 16 - 22 |
| 8 | ADRODDIAD PERFFORMIAD AELOD CABIENT DROS GYLLID | Cyng. Peredur Jenkins | Dilwyn Williams | 23 - 59 |

**ADRODDIAD I'R CABINET**
Ionawr 9fed,

| | |
|---|---|
| **Aelod Cabinet:** | Cynghorydd Dafydd Meurig |
| **Pwnc:** | Prydles Canolfan Henblas, Y Bala, LL23 7AG i Gwmni Pum Plwy Penllyn |
| **Swyddog Cyswllt:** | Dafydd Gibbard – Uwch Reolwr Eiddo |

---

**Y penderfyniad a geisir**
Defnyddio grymoedd Caniatâd Gwaredu Cyffredinol (Cymru) 2003 i brydlesu Adeilad Henblas, Y Bala, yn uniongyrchol i Gwmni Pum Plwy Penllyn Cyf. am lai na gwerth y farchnad er mwyn sicrhau buddiannau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.

**Barn yr aelod lleol**

Cyng. Dilwyn Morgan

Mae datblygiad adeilad yr Henblas fel adnodd cymunedol yn hynod bwysig i gymuned Penllyn a bydd trefniant y brydles yma am 25mlynedd yn sicrhau datblygiad pellach gan Bartneriaeth Penllyn gan alluogi gweithgareddau cymunedol ychwanegol i gael eu datblygu yma.

Y mae yr adeilad fu mewn cyflwr difrifol wedi ei ddatblygu erbyn hyn yn adnodd ardderchog i'r ardal ac mewn cyflwr ardderchog

---

**1. CEFNDIR**

1.1 Sefydlwyd Pum Plwy Penllyn Cyf. yn 2013 yn bwrpasol ar gyfer rhedeg gwasanaethau cyhoeddus o fewn ffiniau cynghorau cymuned Llandderfel, Llangywer, Llanuwchllyn, Y Bala a Llanycil.

1.2 Trwy Daflen Benderfyniad Aelod Cabinet dyddiedig 06/09/2013 penderfynwyd awdurdodi prydlesu Adeilad Henblas (cyn swyddfa arian y Cyngor) i Bum Plwy Penllyn i bwrpas hwyluso darparu'r gwasanaethau hyn, ar delerau ac amodau i'w pennu gan yr Uwch Reolwr Eiddo.

1.3 Ar y pryd, 'roedd yr eiddo yn ddiddefnydd ac angen buddsoddiad sylweddol er mwyn ei adfer i gyflwr ble gellid ei ddefnyddio; 'roedd Pum Plwy Penllyn wedi sicrhau arian grant sylweddol i uwchraddio rhannau sylweddol o'r adeilad.

1.4 Yn unol â chynnwys y daflen (06/09/2013) pennwyd telerau masnachol i adlewyrchu gwerth y farchnad; sef prydles 5 mlynedd gyda gwerth y gwelliannau oedd i gael eu cyflawni gan Bum Plwy Penllyn i gael eu hystyried cyfystyr â rhent

am yr adeilad am oes y brydles. Felly, am y 5 mlynedd diwethaf nid yw'r cwmni wedi gorfod talu rhent i'r Cyngor.

1.5 Wedi cwblhad gwaith adeiladu sylweddol, agorodd Canolfan Henblas yn 2014 fel canolfan gwasanaethau cymunedol i ardal Penllyn. Mae'r Ganolfan yn cynnig gofod addas sydd yn hwyluso presenoldeb gwasanaethau iechyd, lles ac eiriolaeth gwirfoddol a statudol mewn ardal wledig mewn cyfystyr ble mae'r ddarpariaeth gyffredinol yn cyfangu.

1.6 Mae'r Ganolfan yn cyfrannu'n amlwg at les cymdeithasol yn yr ardal trwy hyrwyddo a hwyluso mynediad y trigolion at wasanaethau a ddarperir gan gyrff trydydd sector a cyhoeddus/ statudol i gynnwys;

i. gwasanaethau cynghori ieuenctid oed 16-25 ar faterion cyffuriau, alcohol, rhyw, rhywioldeb, cartrefed, budd daliadau, salwch bwyta, hunanwerth.

ii. gwasanaethau perthnasedd (trais, cyngor perthnasedd)

iii. gwasanaethau cynghori henoed a gofalwyr henoed

iv. mae defnyddwyr rheolaidd yn cynnwys; Cyngor ar Bopeth, Age Cymru, Gisda, Tan y Maen , Tîm Amddiffyn Plant Gwynedd a Chynllun Adfocatiaeth Iechyd Meddwl.

1.7 Mewn hinsawdd ble mae cyrff fel yr uchod wynebu gwasgfa ariannol, mae argaeledd gofod addas a hygyrch ar delerau ffafriol heb orfod dioddef baich meddiannaeth eiddo arferol yn hwyluso parhad gwasanaeth.

1.8 Nid oes modd cynnal y ddarpariaeth yn y modd yma pe byddai'r Cyngor yn mynnu rhent y farchnad ac felly byddai'r adnodd yn cael ei golli.

1.9 Daw prydles bresennol Pum Plwy Penllyn i ben ymhen oddeutu 2 flynedd a bryd hynny gall y Cyngor fel landlord fynnu fod Pum Plwy Penllyn yn ildio meddiant a dychwelyd eiddo gwag i'r Cyngor, neu gynnig prydles newydd gyda rhent y farchnad yn daladwy.

## 2. CAIS AM BRYDLES NEWYDD

2.1 Mae Cwmni Pum Plwy Penllyn Cyf wedi gwneud cais am brydles 25 mlynedd ar rent enwol er mwyn gallu cyflwyno cais grant loteri i ariannu'r gwaith o uwchraddio gweddill yr adeilad ac er mwyn parhau gyda rhent enwol am yr eiddo tra'u bod yn parhau i gynnig gwasanaethau lleol.

2.2 Gan mai darparu gwasanaethau i'r gymuned yw pwrpas Pum Plwy Penllyn, ac felly eu defnydd o Adeilad Henblas, nid ydynt yn gallu cynhyrchu incwm fyddai'n ddigonol i dalu rhent masnachol, a fyddai oddeutu £11,000.

## 3. RHESYMAU DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

3.1 Er mwyn sicrhau gwerth gorau am ei asedau, yn unol ag adran 123 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, y dull traddodiadol o waredu eiddo'r Cyngor yw drwy hysbysebu ar y farchnad agored gan wahodd cynigion fel bod gan unrhyw rai sydd â diddordeb gyfle i brynu neu brydlesu. Bydd hyn yn sicrhau'r pris gorau ac yn sicrhau tryloywder.

3.2 Yn achos yr adeilad hwn, mae'r Cyngor eisoes wedi penderfynu fod yr eiddo yn cael ei osod yn benodol er hwyluso partneriaeth rhwng Cyngor Gwynedd a Chwmni Pum Plwy Penllyn i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yn ardal y pum plwyf. Barnwyd mai Cwmni Pum Plwy Penllyn oedd yr unig denant all gynnig y cyfle i bartneriaethau gyda Chyngor Gwynedd i'r perwyl hynny yn ardal Y Bala.

3.3 Yn ogystal â gosod yn uniongyrchol i un tenant, gofynna'r cais sydd mewn llaw i'r Cyngor osod am swm enwol, sydd wrth gwrs yn llai na gwerth y farchnad. Mae hawl cyfreithiol gan y Cyngor yn unol â grymoedd Caniatâd Gwaredu Cyffredinol (Cymru) 2003 i osod am lai na phris y farchnad mewn achosion lle mae'r Cyngor o'r farn fod y cynnig yn debygol o gyfrannu at hyrwyddo llesiant economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol ardal neu ran o ardal y Cyngor.

3.4 Mae'r buddion a ddarperir yn yr achos hwn wedi eu crynhoi ym mharagraff 1.6 ymlaen uchod ac felly mae gofyn i aelodau'r Cabinet gloriannu'r buddion hyn yn erbyn y golled rhent damcaniaethol blynyddol o £11,000.

3.5 Os yw'r Cyngor am gynnig y telerau ffafriol hyn, bydd cymal penodol yn y brydles fydd yn cyfyngu'r defnydd o'r adeilad ar gyfer darparu gwasanaethau cymunedol yn unig. Os fydd cais am ddefnydd gwahanol, yna byddai angen ail ystyried y rhent priodol bryd hynny.

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Y Prif Weithredwr:**


**Y Swyddog Monitro:**

Fel y nodi'r yn yr adroddiad mae'n ofyn cyfreithiol ( Adran 123 Deddf Llywodraeth Leol 1972) fod y Cyngor yn gwaredu eiddo am bris nad yw'n is na'r hyn y gellir yn rhesymol ei ddisgwyl. Caniateir hepgor y gofyn yma gyda chaniatâd y Llywodraeth a darperir caniatâd cyffredinol yn y Gorchymyn Gwaredu Cyffredinol ( Cymru ) os yw'r Cyngor yn fodlon fod y meini prawf yn y gorchymyn wedi eu cyrraedd. Mae gofyn felly i'r Cabinet, yn unol a'r hyn a adroddir fod yn fodlon fod y cynnig dan sylw yn cyfarch y meini prawf yn y gorchymyn ac yn cyfiawnhau hepgor rhent masnachol.

**Y Pennaeth Cyllid:**

"Gallaf gadarnhau fod y Caniatâd Gwaredu Cyffredinol (Cymru) 2003 yn caniatáu i'r Cyngor brydlesu eiddo am lai na'r gydnabyddiaeth orau dan amgylchiadau penodol. Fel amlinellir ym mharagraff 3.4, os yw'r Cabinet yn dymuno prydlesu Henblas am lai na'r gydnabyddiaeth orau (h.y. am bris sy'n llai na'r gorau sydd ar gael), mae angen i'r Cabinet fodloni ei hun fod methodoleg gadarn a gwrthrychol wedi ei ddefnyddio i ddod i'r casgliad fod manteision economaidd, amgylcheddol a/neu gymdeithasol yr opsiwn hwn yn gorbwyso'r methiant i dderbyn incwm y farchnad.

Er bod pris marchnad ddamcaniaethol wedi cael ei sefydlu ar gyfer rhent incwm yr adeilad yma, os yw'r Cabinet am sicrhau parhad defnydd yr Henblas ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus, mae'n debygol na fyddai corff arall allai wneud defnydd o'r adeilad. Gan nad oes cyllideb benodol yn ei le ar gyfer incwm rhent Henblas, ni fyddai lesu am lai na phris y farchnad yn arwain at angen i dorri cyllidebau. Serch hynny, byddai cymal yn y brydles sy'n cyfyngu defnydd yr adeilad i ddarparu gwasanaethau cymunedol yn allweddol er mwyn gwarchod buddiannau Cyngor Gwynedd, ac i gydymffurfio â gofynion y Caniatâd Gwaredu.




© Hawlfraint y Goron a Hawliau Cronfa Ddata 2013 Arolwg Ordnans 100023387 - Cyngor Gwynedd Council

# CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i Cabinet

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 9 Ionawr, 2018 |
| **Aelod Cabinet:** | Y Cynghorydd Dilwyn Morgan<br>Aelod Cabinet Plant a Chefnogi Teuluoedd |
| **Swyddog Cyswllt:** | Morwena Edwards, Cyfarwyddwr Corfforaethol |
| **Rhif Ffôn Cyswllt:** | 01286 679468 |
| **Teitl yr Eitem:** | Adroddiad Perfformiad Plant a Chefnogi Teuluoedd |

### 1. CYFLWYNIAD

1.1. Pwrpas yr adroddiad yma yw i'ch diweddaru ar berfformiad y maes rwy'n gyfrifol amdano fel Aelod Cabinet Plant a Chefnogi Teuluoedd. Bydd hyn yn cynnwys amlinellu'r diweddaraf gyda'r addewidion yn y Cynllun Strategol; lle mae'r mesurau perfformiad arni; a'r diweddaraf o ran cynlluniau arbedion.

1.2 Byddwn yn eich atgoffa fod yr holl faterion eisoes wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi eu craffu mewn cyfarfodydd o'r timau rheoli perthnasol, oedd hefyd yn cynnwys cynrychiolaeth o'r pwyllgor craffu.

1.3 Ar y cyfan, rwy'n fodlon gyda pherfformiad y mwyafrif o'r prosiectau a'r mesurau rwy'n gyfrifol amdanynt. Fel rwyf wedi adrodd yn flaenorol, mae nifer o'r mesuryddion perfformiad y maes plant yn cynrychioli cynnydd cyffredinol mewn pwysau gwaith o ganlyniad i niferoedd uchel o blant mewn gofal.



**Cyswllt:**
01286 679729 • 01286 679490
cabinet@gwynedd.llyw.cymru

**2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

2.1. Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

**3. RHESYMAU DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD**

3.1. Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad effeithiol a'n bod yn ymateb yn rhagweithiol i'r angen i fod yn cyflawni arbedion effeithlonrwydd yn unol â'r disgwyl.

**4. PROSIECTAU'R CYNLLUN STRATEGOL**

**4.1. P8 - Rhaglen Ymyrraeth Gynnar/Ataliol ar gyfer grwpiau o blant a phobl ifanc bregus Gwynedd.**

4.2 Fel yr wyf eisoes wedi adrodd i'r Cabinet mae'r Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd yn wynebu cyfnod cyffrous wrth ddylunio gwasanaethu addas i'r dyfodol. Mae'r Strategaeth Cefnogi Teuluoedd wedi cael ei adnabod fel rhaglen blaenoriaeth ac i'w chynnwys yng Nghynllun y Cyngor 2018 ymlaen. Bydd y strategaeth yn ein harwain i drawsnewid meysydd traddodiadol o ddarparu gwasanaethau cymdeithasol i blant a theuluoedd. Bydd yn sicrhau ein bod yn cynnig ymyrraeth gynnar ac yn gwneud gwahaniaeth wrth fynd i'r afael a phroblemau cyn iddynt waethygu

4.3 Mae'r rhaglen gyfredol Teuluoedd yn Gyntaf yn dod i ben diwedd Mawrth, ac mae'r adran felly wedi bod yn gweithio ar ail gomisiynu rhaglen o'r newydd. Bydd y rhaglen yma i'r dyfodol yn rhan o'r strategaeth ehangach cefnogi teuluoedd. Bu imi adrodd yn fy adroddiad diwethaf bod ymgynghorydd annibynnol wedi ei gomisiynu i werthuso'r rhaglen gyfredol Teuluoedd yn Gyntaf yng Ngwynedd. Mae'r gwaith yma wedi ei gwblhau ac adroddiad cynhwysfawr wedi ei gyflwyno i'r Adran oedd yn amlinellu llwyddiannau'r ddarpariaeth dros gyfnod y rhaglen yn ogystal ag adnabod modelau o ymarfer da ac adnabod cyfleodd ar gyfer rhaglen i'r dyfodol yn unol â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru a gofynion lleol Gwynedd.

4.3 Bu cyfarfod diwedd Rhagfyr yn dod a darparwyr a'r Cyngor at ei gilydd i drafod bwriad y Cynllun Newydd. Mae proses tendro yn cael ei ddilyn ar hyn o bryd a bydd rhaglen newydd yn weithredol o'r 1af o Fawrth, 2018.

**5. MESUR PERFFORMIAD**

5.1 Mae'r Adran wedi yn ystod y misoedd diwethaf wedi bod yn gweithio ar ddatblygu pwrpasau i'w unedau a mesurau sydd yn mesur cynnydd yn erbyn eu pwrpasau. Cyflwynwyd eu pwrpasau yn ystod y cyfarfod herio perfformiad adrannol a calonogol iawn oedd gweld cymaint o gynnydd wedi ei wneud ers y tro diwethaf imi adrodd. Er bod peth gwaith pellach angen ei wneud gan yr Adran i finiogi eu pwrpasau ac i sicrhau bod y mesurau yn mesur y pethau cywir, rwyf yn falch iawn o gael adrodd bod yr Adran ar y trywydd cywir wrth ddatblygu mesurau sydd yn golygu rhywbeth i'w defnyddwyr gwasanaeth. Byddaf yn fy adroddiad nesaf mewn sefyllfa i rannu gyda chi rhai o'r mesurau yma.

5.2 Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau nad yw mesurau Asesiadau **SOGS (Schedule of Growing Skills)** Dechrau'n Deg mwyach yn berthnasol. Mae'r uned fel rwyf eisoes wedi nodi, wrthi'n datblygu mesurau o'r newydd ac rwy'n hyderus bydd y rhain yn barod i'w cael eu cyflwyno yn fy adroddiad nesaf. Mae'r uned Dechrau'n Deg wedi buddsoddi mewn sustem rheoli gwybodaeth 'Capita'. Bydd y system yma yn helpu i adnabod anghenion addysgol a mesur cynnydd fydd yn arwain at wella trefniadau trosglwyddo plentyn o addysg Meithrin i Gynradd. Mae'r Uned yn adrodd bod y cydweithio gyda'r Adran Addysg wedi cynyddu yn ddiweddar.

5.3 Rwyf am ganolbwyntio ar y mesurau sydd yn achosi pryder imi ac i'r Adran. Mae'r Mesurau sydd yn gysylltiedig â Phlant Mewn Gofal, yn benodol y rhai Addysg ac Iechyd yn annerbyniol yn fy marn. Mae'r materion yma wedi dod i'ch sylw yn flaenorol a gallaf gadarnhau eu bod wedi cael sylw mewn Cyfarfod Rhiantu Corfforaethol yn ddiweddar lle bu i'r Swyddogion Adolygu Annibynnol, hefyd gadarnhau eu pryder.

5.4 Fel mater o flaenoriaeth felly ac fel rhan o strategaeth Rhiantu Corfforaethol, mae grwpiau Tasg nawr wedi eu sefydlu i edrych ar y meysydd yma i sicrhau ein bod yn rhoi'r pwyslais angenrheidiol i Addysg ac Iechyd ond hefyd yn sicrhau ein bod yn rhoi'r gefnogaeth gywir ar yr amser cywir i blant sydd yn ein gofal. Yn yr un modd a'r gwaith mae'r unedau yn ymgymryd wrth ddatblygu pwrpasau a mesurau ystyrlon, byddaf yn disgwyl i'r grwpiau tasg datblygu mesurau priodol ar y cyd gyda'n partneriaid ac edrychaf ymlaen at gael cyflwyno'r rhain i chi. Roedd hi'n galonogol gweld swyddog o'r Adran Addysg yn y cyfarfod perfformiad sydd i mi yn dangos ymrwymiad trawsadrannol i'r agenda yma ac yng nghyd fynd a chyfeiriad hirdymor yr adran.

5.5 Mae'r Mesurau sydd yn ymwneud a Chynadleddau Amddiffyn Plant **(SCC21, SCC14, SCC34)** yn dangos peth dirywiad. Mae amryw o resymau am hyn ond mae'r Adran yn nodi bod diffyg ymrwymiad yr Heddlu i fynychu'r Cynadleddau Achos fel un rheswm. Mae hyn yn arwain at gyfarfodydd sydd heb 'Quarate'. Mae hyn yn achosi cryn bryder imi ac mae'r mater yma wedi cael eu huchafu gan y Pennaeth i'r Heddlu, er nad oes datrysiad boddhaol hyd at heddiw. Nid yw hyn yn fater unigryw i Wynedd ac mae trafodaethau yn digwydd ar lefel rhanbarthol i geisio herio gwell ymrwymiad. Byddaf yn cadw llygad ar y sefyllfa gan ei fod yn angenrheidiol bod yr Heddlu yn rhan o'r trafodaethau allweddol yma.

5.6 Mae'r Mesur Perfformiad **PMC 33** - **Canran o blant sydd wedi cael 3 lleoliad neu mwy yn ystod y flwyddyn** yn gweld cynnydd. (cynnydd o 2 i 7 plentyn). Yn hanesyddol mae'r mesur perfformiad yma wedi bod yn perfformio orau yng Nghymru. Mae'r Adran yn adrodd bod genedigaeth o fewn ysbyty yn cael ei adrodd fel lleoliad cychwynnol ac mae hyn wedi cael dylanwad ar y ffigyrau. Ond yr her fwyaf sydd i'r Adran yw'r unigolion hynny sydd yn anodd iawn i'w lleoli oherwydd anghenion cymhleth a dwys, gan amlaf plant yn eu harddegau. Yn ystod y chwarter mae'r Adran wedi wynebu her o leoliadau yn torri lawr ar fyr rybudd a bod ceisio canfod lleoliadau i'r plant hyn gydag anghenion dwys a chymhleth yn anodd iawn. Nid yw'r sefyllfa yma yn unigryw i Wynedd ac mae'r mater wedi ei uchafu i'r Bwrdd Comisiynu Rhanbarthol. Mae bwriad i wneud darn o waith i edrych ar ddatrysiadau addas yn fwy lleol.

5.7 Am resymau tebyg gwelwn gynnydd yn y **Canran y plant sydd wedi profi mwy nag un newid ysgol yn ystod y flwyddyn (SCC002**). Amlygodd yr Adran bod plant yn eu harddegau sydd gydag anghenion dwys a chymhleth lle mae ysgolion

lleol yn gweld hi'n anodd eu cynnal. Mewn sefyllfaoedd lle mae risgiau i unigolion wedi eu hamlygu, mae symud ysgol yn anorfod i ddiogelu. Un o'r pryderon sydd gan yr Adran yw symud plant yn all sirol. Wrth gwrs wrth symud i leoliadau all-sirol nid yw'n bosib ym mhob achos parhau i gynnig Addysg yn yr iaith Gymraeg ac mae hyn yn her mae'r adran yn pwyso a mesur yn gyson wrth ddod i benderfyniadau gorau i'r plentyn. Mae trafodaethau yn digwydd gyda'r Adran Addysg i baratoi pecynnau 'dysgu o bell' ar gyfer y plant yma fydd yn defnyddio technoleg gwybodaeth megis 'skype' a defnydd o ipads. Mae'n bwysig nodi yn ogystal, ar adegau mae symud lleoliadau yn digwydd am resymau positif ac yn arwain at ganlyniadau positif i'r plentyn.

5.8 Wrth drafod mesur perfformiad **PMC 35** (**Canran o blant sydd wedi profi digartrefedd yn ystod y flwyddyn**), gallaf gadarnhau bod yr unigolyn sydd wedi profi digartref dim mwyach yn ddigartref. Mae angen trafodaeth bellach gyda'r Adran Tai ynglŷn â'r gefnogaeth sydd ar gael i blant sydd yn gadael ein gofal. Mae'r Adran yn adrodd bod plant sydd yn gadael ein gofal yn gorfod cofrestru eu hunain yn ddigartref, fel yn yr achos penodol yma. Nid yw hyn yn gwneud unrhyw synnwyr i mi ac rwyf wedi gofyn am ddatrysiad rhwng y ddwy Adran. Bydd Tai a'r gefnogaeth sydd yn cael ei gynnig i'r plant sydd yn ei gofal wrth droi yn oedolyn a gadael gofal yn cael sylw o fewn grwpiau Tasg y Panel Rhiantu Corfforaethol yn ogystal.

## 6. SEFYLLFA ARBEDION/ARIANNOL

6.1 Yn Ionawr 2014, cyflwynwyd adroddiad "Gwella Buddiannau trwy Drawsffurfio Gwasanaethau Plant" i'r Cabinet. Roedd yr adroddiad hwn yn rhagweld y gellid arbed cymaint â £3m dros gyfnod o flynyddoedd drwy leihau nifer y plant sydd mewn gofal ac adolygu'r ddarpariaeth breswyl. Er bod yr Adran yn ffyddiog fod y rhaglen waith sydd mewn lle er gwireddu'r arbedion yn gweithio, maent erbyn hyn yn bryderus y gallasai'r nod fod wedi bod yn rhy uchelgeisiol. Yn y cyfarfod herio perfformiad ar 22 Tachwedd 2017 ac yn sgil disgwyliadau'r cynllun, cytunwyd bod angen i'r adran adolygu'r deilliannau ariannol hyd yma o'u cymharu â'r damcaniaethau gwreiddiol. Gallaf gadarnhau bod yr Adran y gweithio gyda'r Adran Gyllid er cyflwyno adroddiad buan i'r Cabinet er cymeradwyo unrhyw newidiadau i broffil a/neu swm yr arbedion oedd wedi eu rhagweld.

6.2 Mae cynlluniau 2017/18 yn ymestyniad o rai'r flwyddyn flaenorol ac yn ymwneud â'r maes lleoliadau plant mewn gofal. Mae pwysau cynyddol ar yr adran i leoli plant mewn lleoliadau drudfawr ac erbyn hyn, mae'r adran yn bryderus y gallasai'r nod ariannol fod wedi bod yn rhy uchel. Mae'n bwysig dwyn mewn cof bod yr anghenion gofal yn 2017/18 yn wahanol iawn i flynyddoedd cynharach ac yn llawer mwy costus. Mae lleoliadau yn cael eu craffu yn fanwl gan yr Adran ond mae'n debyg y bydd gorwariant yn cynyddu. Mae pryder am gytundebau gydag Iechyd i gyd ariannu rhai lleoliadau pobl ifanc ac anghenion dwys.

6.3 Mae'r adroddiad ar Adolygiad Ail Chwarter o Gyllideb Refeniw 2017/18, gyflwynwyd i'r Cabinet ar 21 Tachwedd, yn awgrymu risg y bydd yr Adran yn gorwario'n sylweddol, ac yn argymell i'r Adran gymryd camau gweithredu pendant i sicrhau rheolaeth o'u cyllideb erbyn 31 Mawrth 2018. Gallaf gadarnhau fy mod yn gweithio efo'r Adran er ceisio sicrhau hyn.

6.4 Nid yw'r sefyllfa o orwariant y cyfeirir ati uchod yn unigryw i Wynedd. Mae trafodaethau ar y gweill yn rhanbarthol i geisio dod i benderfyniad os oes angen datblygu lleoliadau lleol. Mae awydd rhanbarthol ac mae'r Bwrdd Comisiynu Rhanbarthol yn mynd i wneud darn o waith. Yn ogystal i hyn mae gwaith sgopio yn digwydd yn rhanbarthol i weld os oes angen darpariaeth 'mam a phlentyn' fydd eto yn cyfrannu at leihau costau ar awdurdodau lleol.

## 7. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

**7.1. Dim i'w nodi.**

## 8. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

### 8.1. Barn y Swyddogion Statudol:

#### i. Y Swyddog Monitro:

Er adrodd ar berfformiad, mae materion yn cael eu hamlygu yn yr adroddiad ynglyn a trefniadau Gwasanaethau Plant yn benodol sydd yn briodol i'w tynnu i sylw y Cabinet

#### ii. Y Pennaeth Cyllid:

Cadarnhaf fod y sylwadau yn rhan 6 o'r adroddiad yn adlewyrchiad teg o sefyllfa'r Adran Plant o ran gwireddu'r arbedion a chyd-destun cyllidebol. Bydd diweddariad i'r Cabinet ar y 16eg o Ionawr ynglŷn a'r straen ar gyllideb adrannol 2017/18, ond cadarnhaf (fel dywedai rhan 6.4 o'r adroddiad) fod y tueddiad o gynnydd yn gyson ar draws y rhanbarth o ran yr angen i leoli mwy o blant mewn lleoliadau drud.

Yn ogystal â'r cynnydd anorfod mewn lleoliadau, nodaf fod rhan 6.1 o adroddiad yr Aelod Cabinet yn nodi pryder am swm arbedion roedd yr Adran Plant wedi rhagweld gyda'i prif gynllun arbedion, sef "Gwella Buddiannau trwy Drawsffurfio Gwasanaethau Plant". Deallaf fod yr Adran Plant ar ôl ond yn symud yn ei flaen gyda'r cynllun arbedion trawsffurfio yma, a bod hynny hefyd wedi cyfrannu at orwariant adrannol eleni.

Cytunaf ei fod yn flaenoriaeth i adnabod y deilliannau ariannol o'r cynllun arbedion trawsffurfio er mwyn i'r Cabinet ystyried yr angen i'r Adran Plant gyflwyno cynllun amgen i wireddu'r arbedion ariannol perthnasol i geisio cyflawni'r targed arbedion adrannol hanesyddol.

### 8.2. Barn yr Aelod Lleol:

Dim yn mater lleol.

### 8.3. Canlyniad Unrhyw Ymgynghoriad:

Dim i'w nodi.

**Atodiadau:**

**Atodiad 1** Mesurau Perfformiad

## ATODIAD 1 – Mesurau Plant a Chefnogi Teuluoedd

| Cyf. | Mesur Cyflawni | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 | Gwybodaeth Ddiweddaraf |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd** | | | | | | |
| TTG01 | Canran o achosion sydd wedi dangos cynnydd yn unol â phwrpas yr ymyrraeth | - | - | - | 65% | 65% |
| TTG02 | Canran o achosion lle dangosir lleihad yn y ffactorau a oedd yn amlwg cyn ymyrraeth y tîm | - | - | - | 79% | 79% |
| SCC/024 | Canran y plant sy'n derbyn gofal yn ystod y flwyddyn a chanddynt Gynllun Addysg Bersonol o fewn 20 diwrnod ysgol i dderbyn gofal neu ymuno ag ysgol newydd yn ystod y flwyddyn | 86.5% | 82.1% | 37.9% | 64% | 85% |
| SCC/025 | Canran yr ymweliadau statudol a phlant sy'n derbyn gofal oedd yn fod i gael eu cynnal yn ystod y flwyddyn a'u cynhaliwyd yn unol â'r rheoliadau | 83.7% | 89% | 86.9% | 90% | 92% |
| SCC/041 (a) | Canran y plant cymwys, perthnasol a phlant a fu'n berthnasol, a chanddynt gynlluniau llwybr yn ôl yr angen | 91.2% | 100% | 100% | 100% | 100% |
| SCC/039 | Canran yr asesiadau iechyd ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal sydd wedi'u cynnal yn ystod y flwyddyn | - | 56% | 60% | 68% | 52% |
| SCC/041(b) | Canran y plant cymwys, perthnasol a phlant a fu'n berthnasol sydd wedi cael cynghorydd personol wedi'i ddyrannu iddynt | 100% | 100% | 100% | 100% | 100% |
| SCC021 | Canran yr adolygiadau plant sy'n derbyn gofal wedi eu cynnal o fewn amserlen statudol yn ystod y flwyddyn | - | 93.8% | 90.8% | 91% | 89% |
| Lles PMG 2 | Cynllun llwybr clir wedi ei gytuno ar gyfer plant mewn gofal | 100% | 100% | 100% | 100% | 100% |
| PMG 11 | Canran o blant mewn gofal, a drafodwyd mewn adolygiad lle fod y Swyddog Adolygu Annibynnol o'r farn nad ydynt yn parhau mewn risg o niwed arwyddocaol yn ei lleoliad cyfredol | - | - | 89% | 91% | 94% |
| PMG 12 | Canran o blant mewn gofal, a drafodwyd mewn adolygiad lle fod y Swyddog Adolygu Annibynnol o'r farn fod y lleoliad cyfredol wedi sicrhau sefydlogrwydd i'r plentyn | - | - | 90% | 95% | 97% |
| PMG 13 | Canran o blant mewn gofal, a drafodwyd mewn adolygiad lle fod y Swyddog Adolygu Annibynnol o'r farn fod iechyd a lles y plentyn wedi cael sylw priodol yn y Cynllun Gofal | - | - | 90% | 94% | 97% |
| PMG 14 | Canran o blant mewn gofal, a drafodwyd mewn adolygiad lle fod y Swyddog Adolygu Annibynnol o'r farn fod Cynllun Gofal y plentyn yn uchelgeisiol ar gyfer y plentyn (fel pe byddai yn blentyn i ni) | - | - | 91% | 94% | 95% |
| AP1 | Canran o Gynlluniau Amddiffyn Plant, lle fo'r prif gamau diogelu (gweithredoedd sy'n ymateb i leihau neu ddileu niwed arwyddocaol) wedi eu cwblhau ers y gynhadledd ddiwethaf | - | - | 83% | 73% | 94% |
| AP2 | Canran o Gynlluniau Amddiffyn Plant, lle nad oes unrhyw ddigwyddiadau pellach neu barhad o niwed arwyddocaol cyfredol, heb newid digonol wedi ei gofnodi ers yn gynhadledd ddiwethaf? | - | - | 83% | 73% | 65% |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| AP3 | Canran o gynlluniau Amddiffyn Plant sydd wedi bod yn effeithiol mewn lleihau (perygl o) niwed arwyddocaol i'r plentyn | - | - | 91% | 75% | 77% |
| PMC33/SCC004 | Canran y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth sydd wedi cael tri lleoliad neu fwy yn ystod y flwyddyn | 4.9% | 6.2% | 7.7% | 6% | 3.1% |
| Diogelu 1 | Cyfradd y plant a gafodd eu trafod mewn goruchwyliaeth, lle rhoddwyd ystyriaeth i niwed arwyddocaol | 100% | 100% | 100% | 100% | 100% |
| Diogelu 2 | Cyfradd yr asesiadau risg a gafodd eu cyflwyno I Gynadleddau Achos a oedd yn cael eu hystyried yn rhai a oedd yn dangos ansawdd wrth wneud penderfyniadau | - | 98% | 97% | 94% | 98% |
| CSP - lleol | Canran o deuluoedd sydd wedi adrodd 'cynnydd' yn dilyn derbyn gwasanaeth gan TAT (Tîm o Amgylch y Teulu) | - | - | 25.3% | 95% | 89% |
| SCC021 | Canran yr adolygiadau plant sy'n derbyn gofal wedi eu cynnal o fewn amserlen statudol yn ystod y flwyddyn | - | 93.8% | 90.8% | 91% | 89% |
| PMC32 | Canran y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth sydd â phrofiad o symud ysgol unwaith neu fwy yn ystod cyfnod neu gyfnodau o dderbyn gofal, nad oedd y symud hwnnw oherwydd trefniadau trosiannol, yn y 12 mis hyd at 31 Mawrth | 22.8% | 16.10% | 18.1% | 17.7% | 8% |

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 9fed o Ionawr 2018 |
| **Teitl yr Eitem:** | Adroddiad Perfformiad yr Aelod Cabinet Priffyrdd a Bwrdeistrefol ac Ymgynghoriaeth Gwynedd |
| **Pwrpas:** | Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad |
| **Aelod Cabinet:** | Y Cynghorydd Gareth Griffith |
| **Swyddog Cyswllt:** | Dilwyn Williams, Prif Weithredwr |

**Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd**

1. **CYFLWYNIAD**

1.1. Pwrpas yr adroddiad yma yw diweddaru fy nghyd aelodau ar yr hyn sydd wedi digwydd yn y meysydd yr wyf yn gyfrifol amdanynt fel yr Aelod Cabinet Priffyrdd a Bwrdeistrefol ac Ymgynghoriaeth Gwynedd. Bydd hyn yn cynnwys amlinellu'r hyn sydd wedi digwydd yn erbyn addewidion Cynllun y Cyngor 2017/18; lle mae'r mesurau perfformiad arni; a'r diweddaraf o ran cynlluniau arbedion a thoriadau.

1.2. Yr unig addewidion sy'n berthnasol i Gynllun y Cyngor yw'r cynlluniau arbedion ac mae yna ddiweddariad ar y rhain yn rhan 6 o'r adroddiad.

1.3. Byddwn yn eich atgoffa fod yr holl faterion eisoes wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi eu craffu mewn cyfarfodydd o'r Timau Rheoli oedd hefyd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r Pwyllgorau Craffu perthnasol.

1.4. Ar y cyfan, rwy'n fodlon gyda pherfformiad y mesurau yr wyf yn gyfrifol amdanynt.



**Cyswllt**:
01286 679868
01286 679490
cabinet@gwynedd.llyw.cymru

2. **Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

2.1 Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

3. **Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD**

3.1. Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad effeithiol.

4*.* **PERFFORMIAD**

<u>Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol</u>

4.1 Mae cynnal amgylchedd lleol o safon uchel ac edrychiad strydoedd a mannau cyhoeddus yn bwysig i drigolion Gwynedd. Gwaith yr uned **Gwasanaethau Stryd** yw cadw ein strydoedd yn lan a thaclus a cheir nifer o fesurau sy'n edrych ar ba mor dda y maent yn gwneud hyn. Mae perfformiad y **Mesur o Lendid ac Edrychiad Strydoedd (Mesur STS/005a)** hyd yma eleni yn 71.95% gan ddangos gostyngiad ar berfformiad diwedd blwyddyn 2016/17 o 75.7%. Gellir priodoli'r gostyngiad hyn i effaith y toriadau. Gyda gostyngiad yn y gyllideb cynnal a chadw mae'n anorfod y bydd elfen o ddirywiad.

4.2 Mae'r **Gwasanaeth Gwastraff ac Ailgylchu** yn gyfrifol am ymdrin â gwastraff mewn modd cynaliadwy. Rwy'n fodlon gyda pherfformiad y mwyafrif o'r mesurau ar gyfer y gwasanaeth hwn ond byddwn yn tynnu eich sylw at y pwyntiau canlynol.

4.3 Nodir bod y lefelau **Canran y gwastraff trefol a gesglir gan yr Awdurdod Lleol ac a gaiff ei baratoi ar gyfer ei ailddefnyddio, ailgylchu neu gompostio (Mesur WMT/009)** wedi gostwng o 61.08% yn 2016/17 i 60.00% yn y cyfnod o Orffennaf i Hydref. Gellir priodoli tua 1% o'r gostyngiad hwn i'r ffaith bod lai o wastraff gardd yn cael ei anfon i'w drin o ganlyniad i'r trefniadau i dalu am y gwasanaeth a gyflwynwyd ym mis Ionawr. Fodd bynnag, mae'r perfformiad presennol yn cynrychioli cynnydd sylweddol a'i gymharu â 54.3% yn 2013/14, 55.25% yn 2014/15 a 58.70% yn 2015/16.

4.4 Mae'r **Canran lefelau ailgylchu/compostio masnachol (Mesur PB51)** yn dangos gostyngiad yn y cyfraddau ailgylchu/compostio gan fusnesau (40% ar gyfer y cyfnod Gorffennaf i Hydref o'i gymharu â 40.5% ar gyfer y flwyddyn 2016/17). Gyda gofynion cenedlaethol yn ei gwneud yn orfodol i fasnachwyr ddidoli eu gwastraff, mae Grŵp Tasg wedi ei sefydlu sy'n edrych ar brosesau a chynllun gwaith er mwyn ei wneud yn fwy deniadol iddynt yn ariannol ac i godi perfformiad y mesur hwn. Byddaf yn parhau i gadw golwg ar y gwaith hwn a byddaf yn eich diweddaru yn fy adroddiad nesaf.

4.5 Yr hyn sy'n bwysig i bobl Gwynedd yw bod eu gwastraff yn cael ei gasglu. Gallaf adrodd bod **1.49 miliwn** o gasgliadau gwastraff wedi cael eu gwneud yn y cyfnod o Orffennaf i Hydref gyda **3,567** o gwynion wedi eu derbyn nad oeddem wedi casglu (neu 0.24%).

4.6 Mae dadansoddiad wedi ei wneud i ganfod y rhesymau pam er mwyn gwella'r gwasanaeth. Mae 43% o'r achosion yn deillio oherwydd camgymeriad y gwasanaeth gyda 42% oherwydd methiant i roi'r cynhwysydd allan ar yr amser/dyddiad cywir neu roi'r cynhwysydd yn y lleoliad anghywir. Rwyf wedi gofyn i'r Adran cyflwyno'r wybodaeth fel graff dros amser er mwyn dangos tueddiadau ac

fel ein bod yn gallu adnabod y rhesymau dros unrhyw fethiant a rhoi sylw i'r agweddau y gallwn ddylanwadu arnynt.

4.7 Mae'n bwysig bod busnesau a thrigolion Gwynedd yn medru symud yn rhwydd a diogel o fewn y Sir a nod y Gwasanaeth Priffyrdd yw cyflawni hynny gan geisio cynnal safon ein ffyrdd. Yn flynyddol y caiff y mesurau ar safon y ffyrdd eu mesur ac mae perfformiad 2017/18 ar gyfer **Canran prif ffyrdd dosbarth A (Mesur THS/011a), Chanran prif ffyrdd dosbarth B (Mesur THS/011b) a Chanran ffyrdd dosbarth C (Mesur THS/001c)** yn gyson gyda'r blynyddoedd diwethaf. Mae perfformiad ddiweddaraf yn awgrymu ar gyfer Prif ffyrdd dosbarth A mai **3.2%** sy'n is safonol o'i gymharu â 3.5% ar gyfer 2016/17, perfformiad Prif ffyrdd dosbarth B yn **3.8%** o'i gymharu â 3.9% ar gyfer 2016/17 a pherfformiad Prif ffyrdd dosbarth C yn **14.1%** o'i gymharu â 15.2% ar gyfer 2016/17.

4.8 Mae hyn i weld yn ganlyniad rhyfedd (sef fod cyflwr ein ffyrdd yn gwella tra bod gwariant wedi lleihau yn sylweddol) ond yr awgrym yw efallai fod hyn rhywbeth i'w wneud gyda'r ffaith mai asesu ar hyd un ochr o'r ffordd a wneir mewn un flwyddyn tra'r flwyddyn ganlynol fe asesir ochr arall y ffordd. Cawm a yw hyn yn wir wrth weld canlyniadau'r flwyddyn nesaf.

4.9 Nodir yn yr adroddiad diwethaf bod angen mesur perfformiad ar gyfer mesur **Nifer o ddyddiau a gymerwyd ar gyfartaledd yn ystod y flwyddyn i atgyweirio holl ddiffygion ar lampau stryd (Mesur THS/009) sy'n cynnwys yr achosion sy'n gyfrifoldeb ar Scottish Power.** Gwelir bod perfformiad blynyddol hyd at Hydref yn 3.40 diwrnod sef cyfartaledd y cyfuniad.

4.10 Nodwyd fod cynllun ar waith ar gyfer newid ein goleuadau stryd ac arwyddion i dechnoleg LED. Nodwyd fod cais ' buddsoddi i arbed' yn cael ei baratoi a bydd y mater yn dod ger bron y cabinet maes o law. Mae'r cynllun "arbed" presennol yn mynd ymlaen yn dderbyniol.

5. <u>Adran Ymgynghoriaeth Gwynedd</u>

5.1 Ar gyfer yr Adran yma mae un prif fesur wedi ei adnabod sef **Elw yn erbyn targed**. Nodir fod y sefyllfa yn gymharol gadarnhaol ar hyn o bryd gyda'r tafluniad y sefyllfa NET ddiweddaraf ar gyfer 2017-18 yn dangos **elw uwch na'r targed o £9,470**. Mae hyn yn cymharu gyda diffyg elw o £102,802 yn 2015/16 ac elw uwch o £46,747 yn 2016/17.

5.2 Mae'r **Uned Rheolaeth Adeiladu** yn gyfrifol am sicrhau bod gwaith adeiladu yn cwrdd â'r safonau adeiladu**.** Mae'r Uned wedi datblygu cyfres o fesurau sy'n mesur eu perfformiad ac wedi adrodd arnynt i'r cyfarfod herio perfformiad diwethaf. Dengys y wybodaeth ar gyfer **bodlonrwydd y cwsmer** (Mesur BC 1) ar gyfer y cyfnod rhwng Ebrill a Hydref yn sgôr bodlonrwydd o 9.6 allan o 10, sy'n gyson hefo perfformiad Chwarter 1 o 9.4 allan o 10.

5.3 Dengys gwybodaeth rheoli gan y Gwasanaeth mai un o'r rhesymau dros sgôr is na 10 yw fod y sgorio ar gyfer archwiliadau safle prydlon i weld yn is na gweddill y meysydd gwaith. Mae'r adran yn edrych i weld beth y gellir ei wneud i wella hynny.

5.4 Nodir bod y canran o **geisiadau cynlluniau llawn a gymeradwywyd** neu gymeradwyo'n amodol yn 95.7% ar gyfer y cyfnod rhwng Ebrill a Hydref. Mae perfformiad y mesur hwn wedi parhau yn gymharol sefydlog yn ystod y flwyddyn ond rwyf wedi gofyn i'r Rheolwr edrych ymhellach am y rhesymau nad oedd pawb yn gwbl

fodlon a pham nad oedd ceisiadau wedi eu cymeradwyo er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r sefyllfa.

6. **SEFYLLFA ARIANNOL/ ARBEDION**

6.1 **Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol**

**Cynlluniau 2013/14 – 2015/16**

6.2 Mae un cynllun hanesyddol gwerth cyfanswm £40,000 heb ei wireddu **(PB19 Rhesymoli Baniciau Ailgylchu).** Mae adroddiad gan arbenigwyr yn y maes wedi ei gwblhau ac mae'r adroddiad yn argymhell er ystyriaeth y modd mwyaf priodol o wireddu'r cynllun. Bellach, mae'n amlwg y bydd gweithredu fel oedd wedi ei ragweld yn her. Byddaf yn adrodd yn ôl i'r Cabinet yn fuan.

**Cynlluniau 2016/17 – 2018/19**

6.3 Fel yr ydych yn ymwybodol, bu i'r oll o'r arbedion effeithlonrwydd a'r toriadau oedd wedi'u rhaglennu i'w cyflawni yn 2016/17 gael eu gwireddu.

6.4 Er bod cynnydd derbyniol iawn wedi ei wneud tuag at wireddu y rhan fwyaf o gynlluniau 2017/18 a 2018/19, mae ychydig o bryder yn parhau parthed goblygiadau gweithredu dau ohonynt:

6.4.1 Gyda chynllun **Lleihau Amlder Torri a Threfn Chasglu Gwair Trefol (PB28)** (£50,000) mae yna bryder y byddai goblygiadau parhau i dorri'r gyllideb yn debygol o fod yn fwy na'r hyn a ragwelwyd yn wreiddiol pan wnaed y penderfyniad i dorri. O ganlyniad, rwyf yn bwriadu gofyn i'r Pwyllgor Craffu edrych ar opsiynau amgen ar gyfer gwireddu'r arbediad.

6.4.2 Gyda chynllun **Canolfannau Ailgylchu (PB5),** mae adroddiad gan arbenigwyr yn y maes yn edrych ar opsiynau ar gyfer gweithredu a'r goblygiadau ar berfformiad y mesurau i'r dyfodol (£96,000) wedi ei gwblhau. Ar hyn o bryd rhagwelir y byddaf mewn sefyllfa i adrodd yn ôl i chi yn fy adroddiad nesaf.

6.5 Fel yr ydych yn ymwybodol, ers 2010/11 mae cynnydd da iawn wedi ei wneud yn yr adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol tuag at wireddu arbedion, gyda chyfanswm cynlluniau 8 mlynedd yn **£8.5m.**

6.6 **Adran Ymgynghoriaeth Gwynedd**

6.7 Mae'r Adran Ymgynghoriaeth Gwynedd wedi gwireddu'r oll gynlluniau effeithlonrwydd a thoriadau ar gyfer 2016/17.

7 **CAMAU NESAF AC AMSERLEN**

7.1 Dim i'w nodi.

8 **UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD**

8.1 **Barn y Swyddogion Statudol:**

**i. Y Swyddog Monitro:**
Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb

**ii. Y Pennaeth Cyllid:**
Cadarnhaf fod y sylwadau'r Aelod Cabinet yn rhan 6 o'r adroddiad gerbron yn adlewyrchiad teg o'r cynnydd derbyniol fu'n yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol ac yn Ymgynghoriaeth Gwynedd o ran gwireddu'r arbedion cyfredol.

Nodaf hefyd fod rhan 4.10 o'r adroddiad yn cyfeirio at gynnydd derbyniol fu gan yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol gydag un o brif gynlluniau cyfalaf y Cyngor, sef 'arbed gyda goleuadau stryd ac arwyddion i dechnoleg LED'.

Ymhellach, mae'n galonogol i nodi yn rhan 5.1 o'r adroddiad fod tafluniad elw Ymgynghoriaeth Gwynedd ar gyfer 2017/18 yn uwch na'r targed, sy'n gyson gyda'r diweddariad ar gyllideb 2017/18 fydd gerbron y Cabinet ar 16 Ionawr.

8.2 **Barn yr Aelod Lleol:**

8.2.1 Ddim yn fater lleol.

8.3 **Canlyniad Unrhyw Ymgynghoriad:**

8.3.1 Dim i'w nodi.

---

**Atodiadau**

**Atodiad 1 –** Mesurau Perfformiad

Atodiad 1

**Priffyrdd a Bwrdeistrefol**

| Gwasanaeth | Pennawd | Perfformiad Blynyddol 2013-14 | Perfformiad Blynyddol 2014-15 | Perfformiad Blynyddol 2015-16 | Perfformiad Blynyddol 2016-17 | Perfformiad Gorffennaf - Hydref 2017-18 | Symudiad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Priffyrdd | **THS/011a** Canran prif ffyrdd (dosbarth A) sydd mewn cyflwr gwael | 4.40 | 3.50 | 3.1 | 3.5 | Adrodd yn flynyddol | ▭ |
| Priffyrdd | **THS/011b** Canran ffyrdd (dosbarth B) sydd mewn cyflwr gwael | 4.70 | 3.70 | 3.4 | 3.9 | Adrodd yn flynyddol | ▭ |
| Priffyrdd | **THS/011c** Canran ffyrdd (dosbarth C) sydd mewn cyflwr gwael | 14.70 | 14.2 | 15.8 | 15.2 | Adrodd yn flynyddol | ▭ |
| Priffyrdd | **THS/009** Nifer o ddyddiau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd yn ystod y flwyddyn i atgyweirio'r holl ddiffygion ar lampau stryd | 2.70 | 3.50 | 2.76 | 2.52 | (3.40 - Cyfartaledd cyfuniad Cyngor Gwynedd a Scottish Power) | ▭ |
| Priffyrdd | **PB8** Canran o ddigwyddiadau o ddifrod peryglus i ffyrdd a phafinau atgyweirwyd neu wneuthpwyd yn ddiogel o fewn 24 awr i'r amser hysbyswyd. | 97.20 | 97.00 | 97.8 | 98 | 97 | ⇩ |
| Priffyrdd | **PB9** Canran o'r archwiliadau diogelwch wedi eu cwblhau o fewn y cyfnod penodedig. | 98.30 | 98.00 | 99 | 99 | 99 | ▭ |
| Gwasanaethau Stryd | **STS/005a** Mesur o Lendid ac Edrychiad Strydoedd | 73.5 | 70.65 | 76.26 | 75.7 | 71.95 | ⇩ |
| Gwasanaethau Stryd | **STS/005b** Canran y priffyrdd a thir perthnasol a archwiliwyd sydd a'u safon glanweithdra yn uchel neu dderbyniol | 93.5 | 94.3 | 96.7 | 96.55 | 94.10 | ⇩ |
| Gwasanaethau Stryd | **STS/006** Canran o ddigwyddiadau gwaredu slei bach ar dir perthnasol wedi clirio o fewn 5 diwrnod gwaith i'r amser hysbyswyd | 97.3 | 96.5 | 96.50 | 97.90 | 96.60 | ▭ |
| Gwasanaethau Stryd | **PB15** Canran o'r graffiti/posteri sy'n ymguddio arwyddion traffig ac yn achosi peryglon, glanhawyd/cliriwyd o fewn 24 awr i'r amser hysbyswyd | 100 | 100 | 100.00 | 100 | 100 | ▭ |
| Gwasanaethau Stryd | **PB16** Canran o'r graffiti/posteri hiliol/tramgwyddol ar eiddo'r Cyngor, glanhawyd/cliriwyd o fewn 5 diwrnod gwaith i'r amser hysbyswyd | 100 | 100 | 100.00 | 100 | 100 | ▭ |

Atodiad 1

| Gwasanaeth | Pennawd | Perfformiad Blynyddol 2013-14 | Perfformiad Blynyddol 2014-15 | Perfformiad Blynyddol 2015-16 | Perfformiad Blynyddol 2016-17 | Perfformiad Gorffennaf - Hydref 2017-18 | Symudiad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwastraff ac Ailgylchu | **WMT/004** Canran y gwastraff trefol yrrwyd i'w dirlenwi | 45.94 | 43.33 | 34.34 | 30.62 | 31.78 | |
| Gwastraff ac Ailgylchu | **WMT/009** Canran y gwastraff trefol a gesglir gan yr Awdurdod Lleol ac a gaiff ei baratoi ar gyfer ei ailddefnyddio, ailgylchu neu ei gompostio | 54.3 | 55.25 | 58.7 | 61.08 | 60 | |
| Gwastraff ac Ailgylchu | **PB51** Canran lefelau ailgylchu/compostio masnachol | 30.79 | 35.45 | 41.44 | 40.5 | 40 | |
| Gwastraff ac Ailgylchu | **PB60** Uchafswm tunelledd gwastraff pydradwy a dirlenwir (Lwfans tirlenwi) | 19,650.00 | 18,603.00 | 15,329.00 | 16,989.00 | 91.00% | |

**Ymgynghoriaeth Gwynedd**

| Gwasanaeth | Pennawd | Perfformiad Blynyddol 2013-14 | Perfformiad Blynyddol 2014-15 | Perfformiad Blynyddol 2015-16 | Perfformiad Blynyddol 2016-17 | Rhagolwg 2017-18 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ymgynghoriaeth Gwynedd | Elw yn erbyn y targed | £120,000 | £21,000 | -£34,000 | £66,000 | £9,465 |

| Gwasanaeth | Pennawd | Perfformiad 2016-17 | Perfformiad Ebrill - Hydref 2017-18 |
|---|---|---|---|
| Ymgynghoriaeth Gwynedd | **BC-1** Arolwg bodlonrwydd y cwsmer, y ffigwr ar gyfartaledd a roddir gan gleientiaid am eu gwasanaeth rheolaeth adeiladu (ffigwr roddwyd allan o uchafswm sgôr bodlonrwydd o 10) | 9.3 | 9.6 |
| Ymgynghoriaeth Gwynedd | **BC-2** % y ceisiadau Rheolaeth Adeiladu cynlluniau llawn a gymeradwywyd yn ystod y flwyddyn | 92.2 | 95.7 |
| Ymgynghoriaeth Gwynedd | **BC-3** Nifer y dyddiau ar gyfartaledd a gymerwyd i wirio cais cynlluniau llawn (penderfyniad cyntaf) | 19.0 | 13.0 |
| Ymgynghoriaeth Gwynedd | **BC-4** Amser ymateb i ymdrin â strwythurau peryglus, ar ôl hysbysiad (oriau) | 1.8 | 2 |

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 9fed o Ionawr 2018 |
| **Teitl yr Eitem:** | Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet Cyllid |
| **Pwrpas:** | Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad |
| **Aelod Cabinet:** | Y Cynghorydd Peredur Jenkins |
| **Swyddog Cyswllt:** | Dilwyn Williams, Prif Weithredwr |

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

1. **CYFLWYNIAD**

1.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw diweddaru fy nghyd aelodau ar yr hyn sydd wedi digwydd yn y meysydd yr wyf yn gyfrifol amdanynt fel Aelod Cabinet Cyllid. Bydd hyn yn cynnwys amlinellu'r hyn sydd wedi digwydd yn erbyn addewidion Cynllun y Cyngor; lle mae'r mesurau perfformiad arni; a'r diweddaraf o ran cynlluniau arbedion a thoriadau.

1.2 Byddwn yn eich atgoffa fod yr holl faterion eisoes wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi eu craffu mewn cyfarfod o dîm rheoli'r Adran Cyllid, oedd hefyd yn cynnwys cynrychiolaeth o'r Pwyllgor Craffu.

1.3 Ar y cyfan, rwy'n gyfforddus gyda pherfformiad y prosiectau a'r mesurau perfformiad yr wyf yn gyfrifol amdanynt neu fod camau priodol wedi eu cymryd er mwyn gwella perfformiad.



**Cyswllt**:
01286 679868
01286 679490
cabinet@gwynedd.llyw.cymru

2. **Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

2.1 Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

3. **Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD**

3.1. Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad effeithiol.

4. **PROSIECTAU'R CYNLLUN STRATEGOL**

***Cyngor Effeithiol ac Effeithlon***

4.1. **FfG5 - Strategaeth Technoleg Gwybodaeth (TG)**

4.2 Ers i mi adrodd diwethaf mae cynnydd pellach wedi digwydd yng ngwaith y Strategaeth.

4.3 **Sianel Ddigidol a Hwyluso Cysylltu Gyda'r Cyngor:** Mae datblygiadau'r sianel ddigidol wedi derbyn blaenoriaeth, gan lansio yn ddiweddar. Cam nesaf y datblygiad yw rhyddhau "ap" fydd yn galluogi'r cyhoedd i yrru lluniau gan gynnwys gwybodaeth ddaearyddol er mwyn adrodd ar broblemau a hwyluso gwaith gwasanaethau rheng flaen wrth ymateb.

4.4 **Arloesi:** Mae'r gwaith ymchwil sy'n mynd ymlaen fel rhan o'r strategaeth TG yn dwyn ffrwyth a thalu ar ei ganfed. Mae camau cychwynnol wedi eu cymryd er mwyn creu grŵp strategol ar lefel Awdrudodau Lleol er mwyn cynyddu ein gallu i arloesi a datblygu gwasanaethau digidol. Y gobaith wrth fynd ymlaen yw sefydlu corff sydd wedi ei gyd-ariannu rhwng yr Awdurdodau Lleol a Llywodraeth Cymru, gan ddefnyddio model tebyg i un sydd eisoes wedi ei sefydlu rhwng Awdurdodau Lleol a'r Llywodraeth yn Yr Alban.

**4.5 C7 System rheoli dogfennau a chofnodion electronig (EDRMS)**

4.6 Mae'r gwaith o ledaenu defnydd y system i'r Adrannau Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant a Phlant a Chefnogi Teuluoedd wedi golygu gwaith mwy cymhleth nac oedd wedi ei ragweld er mwyn diwallu eu hanghenion. Golyga hynny fod yr amserlen wedi llithro ac mae'r gwasanaeth yn bwriadu gorffen lledaenu iGwynedd i holl Adrannau'r Cyngor erbyn diwedd haf 2018.

4.7 Mae gennyf elfen o bryder ynglŷn ag a yw'r system yn cyflawni'r hyn mae hi wedi ei datblygu i'w gyflawni. I'r perwyl hwnnw 'rydw i wedi gofyn i'r Bwrdd Prosiect adrodd yn ôl i'r cyfarfod nesaf, gan nodi beth oedd y bwriad gwreiddiol ac a yw'r system yn cyflawni hynny.

**5 PERFFORMIAD**

5 Mae ***Atodiad 1*** yn adrodd yn llawn ar y mesurau perfformiad sy'n gysylltiedig â fy mhortffolio.

5.1 Ceir 11 o Wasanaethau o fewn yr Adran Cyllid. Rwyf wedi herio mesurau'r **Gwasanaeth Cyflogau, Cyllid a Chyfrifeg, Buddsoddi a Rheolaeth Trysorlys, Incwm, Trethi** a **Budd-daliadau** ac yn fodlon gyda'r perfformiad.

5.2 Mae'r **Gwasanaeth Risg ac Yswiriant** yn cefnogi adrannau'r Cyngor wrth iddynt asesu'r bygythiadau a chyfleoedd all eu hwynebu wrth ddarparu eu

gwasanaethau a blaenoriaethu eu gweithgareddau ar sail yr asesiad. Maent hefyd yn amddiffyn buddiannau trethdalwyr drwy sicrhau trefniadau yswiriant priodol ac ymdrin â hawliadau.

5.3 Nodir fod perfformiad y mesur **Amddiffyn budd ariannol y trethdalwr: Canran o hawliadau atebolrwydd cyhoeddus a wadwyd (setlwyd am £0) gan yr Uned Yswiriant (CD4.01)** wedi cynyddu yn ôl i 85.7% o'i gymharu â 66.6% yn chwarter un 2017/18. Bu i ni amddiffyn 6 allan o 7 hawliad yn llwyddiannus. Roedd yr 1 hawliad a ganiatawyd yn ymwneud â difrod wnaed i gerbyd un o ddinasyddion Gwynedd wrth wneud gwaith cyfagos. Mae'r math yma o hawliad yn un nad yw'n cael ei herio allan o'r egwyddor o wneud iawn am ddifrod i eiddo trigolion Gwynedd sy'n cael ei achosi gan y Cyngor.

5.4 Pwrpas y **Gwasanaeth Archwilio Mewnol** yw rhoi hyder i'r dinesydd a'r Cyngor am amgylchedd reolaeth a threfniadau llywodraethu'r Cyngor trwy adrodd yn annibynnol a gwrthrychol i'r Pennaeth Cyllid a'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.

5.5 Erbyn diwedd yr ail chwarter, roedd **Canran archwiliadau yn y Cynllun Archwilio sydd un ai wedi eu cau neu sydd ag adroddiad terfynol wedi ei ryddhau (CD2.03)** wedi cyrraedd 26.56%, o'i gymharu â 3.33% ar ddiwedd y chwarter cyntaf, fel nodwyd yn fy adroddiad diwethaf. Er bod gwelliant sylweddol wedi cael ei wneud er mwyn dod a'r perfformiad yn ôl i'r lefel ddisgwyliedig, bydd angen blaenoriaethu gwaith yr uned yn ofalus er mwyn gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o'r adnoddau sydd ar gael. Rwy'n falch fod y sefyllfa wedi gwella, a byddaf yn cadw golwg ar y mesur i'r dyfodol.

5.6 Mae'r **Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth** yn cefnogi a rhoi'r gallu i holl wasanaethau'r Cyngor wasanaethu dinasyddion Gwynedd mewn ffordd effeithiol, hyblyg a diogel. Gwelir bod **Canran yr argaeledd rhwydwaith (TG01)** wedi parhau yn gymharol sefydlog gyda'r perfformiad yn ystod y cyfnod dan sylw yn 99.96% o'i gymharu â 99.97% yn y cyfnod blaenorol.

5.7 Yn y cyfarfod herio perfformiad bu i ni drafod y problemau a gafwyd hefo systemau cyfrifiadurol y Cyngor am gyfnod yn ystod yr haf, gan nodi mai problemau gyda chyfnewidfeydd ffon oedd wedi achosi dau allan o'r pedwar problem.

5.8 Mae'r Gwasanaeth yn dal i weithio ar wella gwydnwch y rhwydwaith, gan weithio'n agos gyda chyflenwyr a phartneriaid. Un syniad sydd wedi cael ei grybwyll ydi rhannu cyfleusterau wrth gefn gyda sefydliadau cyffelyb eraill er mwyn cynyddu capasiti a gwydnwch gan rannu'r costau. Byddai hynny hefyd yn arwain at gynnal isadeiledd fyddai'n cael ei ddefnyddio yn hytrach na sefyll yn segur yn aros am argyfwng.

5.9 Mae'r **Gwasanaeth Pensiynau** yn gweinyddu'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ar ran dros 40 o gyflogwyr er mwyn cyfrifo a thalu pensiynau yn brydlon a chywir. Bu i berfformiad y mesur **Cyfartaledd nifer y dyddiau gwaith a gymerwyd i anfon llythyr yn hysbysu gwerth buddion ymddeol - amcangyfrif (CD9.03)** wella wrth ostwng o 7.40 diwrnod gwaith yn y chwarter cyntaf, i 2.40 yn yr ail chwarter. Mae hyn o ganlyniad i symud adnoddau oedd mewn cyfnod distaw i gynorthwyo gyda'r gwaith. Gan fod y perfformiad wedi gwella gymaint, gofynnais i'r Gwasanaeth gasglu data am y ffactorau cyfrannol er mwyn gweld os yw'n bosib cadw'r perfformiad ar yr un lefel.

5.10 Nodwyd fod achosion o wallau mewnol (yn y gyfundrefn pensiynau) wedi cynyddu yn yr un cyfnod o 6 achos i 13, gan amlygu'r posibilrwydd y bu cyfaddawd rhwng brys a chywirdeb. 'Rydw i wedi gofyn i'r gwasanaeth gadw hynny mewn cof, gan anelu at wasanaeth sy'n perfformio yn gyson gywir ac mewn cyfnod amser rhesymol. Mae'r Gwasanaeth hefyd yn parhau i weithio ar sicrhau fod y 46 sefydliad sy'n rhan o'r cynllun yn ein hysbysu yn gywir ac amserol am newidiadau staff sy'n cyfrannu i'r cynllun pensiwn.

5.11 Y **Gwasanaeth Cyflogau** sydd yn sicrhau fod pawb sydd i dderbyn cyflog gan y Cyngor yn ei dderbyn yn gywir ac ar amser, yn ogystal â darparu cyfrifon ar gyfer talu cyrff allanol megis CThEM (HMRC).

5.12 Mae mesur **Nifer gweithwyr sydd yn cysylltu ynglŷn ag unrhyw ddiffyg yn y broses talu cyflogau (CD8.08)** wedi bod yn gyson rhwng 60 a 69 yn ystod 2016/17 a chwarter un 2017/18. Fodd bynnag, yn chwarter 2 neidiodd y nifer i fyny i 121. Noda'r gwasanaeth fod amheuaeth fod ymholiadau wedi eu cam-gofnodi fel cwynion gan godi'r nifer. Mae'r Gwasanaeth yn bwriadu ymchwilio mewn i wahaniaethu rhwng cwynion ac ymholiadau wrth gofnodi'r galwadau. Noda'r gwasanaeth hefyd fod nifer o'r ymholiadau yn weithwyr yn cysylltu er mwyn ceisio cael gwybod faint fyddai cyflog y mis hwnnw. Rwy'n teimlo fod y ffaith fod rhai o staff y Cyngor yn cysylltu yn y modd yma yn adlewyrchu ar sefyllfa bregus carfan o'r gweithlu, ac felly 'rydw i wedi gofyn i'r Gwasanaeth gymryd camau i geisio lliniaru'r ansicrwydd. Mewn ymateb nododd y Gwasanaeth eu bod yn bwriadu edrych ar hysbysu staff pa wythnosau sydd yn disgyn i mewn i ba gyfnodau talu, ymysg camau eraill.

## 6 SEFYLLFA ARIANNOL/ ARBEDION

6.1 Erbyn hyn, gellir cyfrif bod cynlluniau arbedion 2016/17 a 2017/18 wedi eu cyflawni. O ran 2018/19, un cynllun sy'n weddill, cynllun Toriad 13 - Peidio talu'r ffi am dalu Treth Cyngor yn y swyddfa bost. Mae'r her yn parhau o ran gwireddu'r cynllun yma yn y dull a fwriadwyd yn wreiddiol, ac mae gwaith ar y gweill i ddarganfod datrysiad a gwireddu swm yr arbediad mewn modd amgen.

## 7 CAMAU NESAF AC AMSERLEN

7.1 Dim i'w nodi.

## 8 UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

8.1 **Barn y Swyddogion Statudol:**

**i. Y Swyddog Monitro:**

Dim sylwadau o ran priodoldeb.

**ii. Y Pennaeth Cyllid:**

Rwyf yn cadarnhau cywirdeb cynnwys yr adroddiad, a byddaf yn cefnogi'r Aelod Cabinet i gyflawni'r amcanion perthnasol.

8.2 **Barn yr Aelod Lleol:**

8.3 Ddim yn fater lleol.

8.4 **Canlyniad Unrhyw Ymgynghoriad:**

8.5 Dim i'w nodi.

---

**Atodiadau**

**Atodiad 1 –** Mesurau Perfformiad


**MONITRO PERFFORMIAD ADRAN CYLLID**
**2017.18**

**<u>Gwasanaeth Incwm - Mesurau Cyflawni</u>**

Uwch Reolwr Cyfrifol : Dewi A Morgan
Rheolwr Cyfrifol: Stephen Williams

<u>Pwpras y Gwasanaeth:</u>
Prosesu incwm amrywiol a chasglu dyledion y Cyngor yn brydlon ac effeithlon er mwyn uchafu incwm, tra’n ystyried anghenion yr adrannau a gweithredu’n sensitif i amgylchiadau ariannol dyledwyr

| Cyf. | Mesur Cyflawni | Sylwadau Chwarter 2 | Ch 2 17/18 | Ch 1 17/18 | Ch 4 16/17 | Ch 3 16/17 | Ch 2 16/17 | Ch2 15/16 | Ch2 14/15 | Ch2 13/14 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| CD7.02 | Gwerth holl ddyledion amrywiol dros 6 mis oed (ac eithrio taliadau gohiriedig a dyledion a gyfeirwyd am weithrediad pellach i wasanaethau eraill). | Mae'r perfformiad yn well na'r chwarter cyffelyb yn 2016/2017. | 877,262 | 937,535 | 968,877 | 1,055,863 | 901,156 | 978,668 | 1,020,744 | 923,375 |
| CD7.05 | Cyfradd casglu dyledion amrywiol o fewn y chwarter – Gwerth. | Mae'r perfformiad yn well na'r chwarter blaenorol ond ddim yn cyrraedd perfformiad y chwarter cyffelyb yn 2016/2017. Pe byddai anfoneb gwerth £267K i Ynys Mon wedi ei gwrthdroi o fewn y chwarter yna fe fyddai'r perfformiad yn 90.23%. | 86.94 | 81.97 | 89.56% | 84.60% | 90.17% | 86.37% | 91.76% | 74.02% |
| CD7.06 | Canran o ddyledion ble daethpwyd i gytundeb talu gyda'r dyledwr. | Mae'r perfformiad yn well na chwarter 2 2016/2017. | 14.38% | 14.67% | 10.04% | 13.88% | 13.80% | 12.13% | 10.59% | 2.73% |






**Dadansoddiad o'r dyledion mewn trefniant**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Holl falans dyledus | 9,948,636 | | |
| Mewn trefniant (Gwerth) | 752,702 | 8% | |
| Clirio erbyn 31/03/18 | 510,693 | 68% | |
| Clirio tu allan i'r flwyddyn ariannol | 242,009 | 32% | 3% |

**MONITRO PERFFORMIAD ADRAN CYLLID**
**2017.18**

## Gwasanaeth Trethi - Mesurau Cyflawni (Chwarterol)

Uwch Reolwr Cyfrifol : Dewi A Morgan
Rheolwr Cyfrifol: Bleddyn Jones

Pwrpas y Gwasanaeth:
Casglu trethi yn brydlon ac effeithlon, gan geisio bod yn hyblyg a chydymdeimladol i amgylchiadau unigolion



| Cyf. | Mesur Cyflawni | Sylwadau Chwarter 2 | Ch2 17/18 | Ch1 17/18 | Ch4 16/17 | Ch3 16/17 | Ch2 16/17 | Ch2 15/16 | Ch2 14/15 | Ch2 13/14 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| CD11.01 | Cyfradd Casglu Treth Cyngor | 67.06% | 57.80% | 30.4% | 97.35% | 85.3% | 58.06% | 58.15% | 58.12% | 57.96% |
| CD11.02 | Cyfradd Casglu Trethi Annomestig | 70.45% | 62.44% | 27.60% | 97.91% | 87.31% | 62.8% | 63.6% | 63% | 63.92% |
| CD11.04 | Nifer o drethdalwyr treth cyngor ddaeth i gyswllt â'r tim adfer ac â gyfeirwyd at fudiad y CAB am gyngor dyledion ehangach | | 41 | 38 | 87 | 92 | 68 | | | |

**MONITRO PERFFORMIAD ADRAN CYLLID**
**2017.18**

## Gwasanaeth Trethi - Mesurau Cyflawni (Blynyddol)

Uwch Reolwr Cyfrifol : Dewi A Morgan
Rheolwr Cyfrifol: Bleddyn Jones

Pwrpas y Gwasanaeth:
Casglu trethi yn brydlon ac effeithlon, gan geisio bod yn hyblyg a chydymdeimladol i amgylchiadau unigolion

| Cyf. | Mesur Cyflawni | Sylwadau | 17/18 | 16/17 | 15/16 | 14/15 | 13/14 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| CD11.03 | Cyfanswm dyledion wedi eu dileu yn y tymor hir (3 mlynedd) fel canran o'r cyfanswm godwyd ar y cyfrifon tros yr un cyfnod | | | 0.23% | 0.38% | 0.47% | 0.52% |

**MONITRO PERFFORMIAD ADRAN CYLLID**
**2017.18**

**Gwasanaeth Budd-daliadau - Mesurau Cyflawni**

Uwch Reolwr Cyfrifol : Dewi A Morgan
Rheolwr Cyfrifol: Dylan Griffith

Pwrpas y Gwasanaeth:
Prosesu ceisiadau Budd-dal Tai a Chynllun Gostyngiad Treth Cyngor yn brydlon a chywir, er mwyn rhoi cymorth i ddinasyddion Gwynedd i dalu eu rhenti a biliau Treth Cyngor


| Cyf. | Mesur Cyflawni | Sylwadau Chwarter 2 | Ch 2 17/18 | Ch 1 17/18 | Ch 4 16/17 | Ch 3 16/17 | Ch 2 16/17 | Ch2 15/16 | Ch2 14/15 | Ch2 13/14 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| CD12.03 | Cyfartaledd amser a gymerwyd i brosesu cais budd-dâl newydd (dyddiau) | Parhau i golli 2 aseswr profiadol llawn amser am gyfnod helaeth o Chwarter 2, oherwydd cyfnod mamolaeth a salwch. Swyddog wedi dychwelyd o famolaeth ar 4/9/17 a threulio amser yn ymgyfarwyddo efo newidiadau ayyb cyn ail gychwyn prosesu ceisiadau. Swyddog ar salwch hir dymor yn dychwelyd ar sail 'phased' ar 5/7/17 a gweithio'r drefn yma hyd at 11/8/17. Gwyliau ganddi wedyn am 3 wythnos ond ar ddiwedd cyfnod gwyliau, derbyn anaf a heb ddychwelyd i'r gwaith yn y chwarter. I geisio adfer y sefyllfa, trefnwyd goramser ac mae gwelliant i'w weld at ddiwedd y chwarter, gyda ffigwr Medi yn **17.77** i'w gymharu efo Gorffennaf yn **21.90** ag Awst yn **21.24**. | 20.34 | 19.65 | 17.08 | 18.31 | 17.34 | 16.84 | 15.23 | 21.77 |
| CD12.04 | Cyfartaledd amser a gymerwyd i brosesu hysbysiad newid mewn amgylchiadau (budd-dâl) (dyddiau) | Yr un rhesymau â CD12.03 yn berthnasol, a cawsom drafferth efo'r proses ATLAS lle nad oedd gwybodaeth am newidiadau yn dod drwadd gan y DWP am 10 diwrnod a felly'n creu ôl-groniad o waith. Fel uchod mae gwelliant i'w weld at ddiwedd y chwarter gyda ffigwr mis Medi yn **5.77** i'w gymharu efo Gorffennaf yn **7.67** ag Awst yn **7.87**. | 7.09 | 6.53 | 4.04 | 6.89 | 5.78 | 5.22 | 3.62 | 5.20 |
| CD12.05 | Canran yr achosion mewn sampl a ddewiswyd ar hap lle bu rhaid addasu'r cyfrifiad yn dilyn gwiriad mewnol | Wedi gwirio 136 o geisiadau a newidwyd 8 o gyfrifiadau. O'r gwaith dadansoddi wnaethpwyd o ddata y tri chwarter blaenorol, rydym wedi cymryd camau i wella ein perfformiad ac adlewyrchir hyn yn y gostyngiad mewn canran y camgymeriadau. | 5.88% | 6.82% | 7.92% | 6.12% | | | | |

Data

Cyfartaledd amser a gymerwyd i brosesu cais budd-dâl newydd (nifer o ddyddiau)

**CD12.03**


| | |
|---|---|
| CH1 2014-15 | 22.24 |
| CH2 2014-15 | 22.78 |
| CH3 2014-15 | 21.48 |
| CH4 2014-15 | 15.23 |
| CH1 2015-16 | 16.07 |
| CH2 2015-16 | 16.84 |
| CH3 2015-16 | 16.95 |
| CH4 2015-16 | 15.99 |
| CH1 2016-17 | 17.15 |
| CH2 2016-17 | 17.34 |
| CH3 2016-17 | 18.31 |
| CH4 2016-17 | 17.08 |
| CH1 2017-18 | 19.65 |
| CH2 2017-18 | 20.34 |



Cyfartaledd amser a gymerwyd i brosesu hysbysiad newid mewn amgylchiadau (budd-dâl) (dyddiau)

**CD12.04**


| | |
|---|---|
| CH1 2014-15 | 8.95 |
| CH2 2014-15 | 6.94 |
| CH3 2014-15 | 7.6 |
| CH4 2014-15 | 3.62 |
| CH1 2015-16 | 6.55 |
| CH2 2015-16 | 5.22 |
| CH3 2015-16 | 6.27 |
| CH4 2015-16 | 3.71 |
| CH1 2016-17 | 5.95 |
| CH2 2016-17 | 5.78 |
| CH3 2016-17 | 6.89 |
| CH4 2016-17 | 4.04 |
| CH1 2017-18 | 6.53 |
| CH2 2017-18 | 7.09 |



Canran yr achosion mewn sampl a ddewiswyd ar hap lle bu rhaid addasu'r cyfrifiad yn dilyn gwiriad mewnol


**CD12.05**

| | |
|---|---|
| CH3 2016-17 | 6.12% |
| CH4 2016-17 | 7.92% |
| CH1 2017-18 | 6.82% |
| CH2 2017-18 | 5.88% |




**CD12.03 - Ceisiadau Newydd**

| | |
|---|---|
| Ebrill 2016 | 15.80 |
| Mai 2016 | 19.42 |
| Mehefin 2016 | 15.89 |
| Gorffennaf 2016 | 19.12 |
| Awst 2016 | 15.71 |
| Medi 2016 | 17.01 |
| Hydref 2016 | 17.87 |
| Tachwedd 2016 | 17.44 |
| Rhagfyr 2016 | 20.10 |
| Ionawr 2017 | 17.52 |
| Chwefror 2017 | 17.00 |
| Mawrth 2017 | 17.22 |




**CD12.04 - Newidiadau mewn Amgylchiadau**

| | |
|---|---|
| Ebrill 2016 | 5.39 |
| Mai 2016 | 5.51 |
| Mehefin 2016 | 7.72 |
| Gorffennaf 2016 | 6.67 |
| Awst 2016 | 5.92 |
| Medi 2016 | 5.09 |
| Hydref 2016 | 6.45 |
| Tachwedd 2016 | 7.15 |
| Rhagfyr 2016 | 7.25 |
| Ionawr 2017 | 7.06 |
| Chwefror 2017 | 6.42 |
| Mawrth 2017 | 5.14 |




**CD12.03 - Ceisiadau Newydd**

| | |
|---|---|
| Ebrill 2017 | 17.46 |
| Mai 2017 | 21.83 |
| Mehefin 2017 | 19.81 |
| Gorffennaf 2017 | 21.90 |
| Awst 2017 | 21.24 |
| Medi 2017 | 17.77 |
| Hydref 2017 | |
| Tachwedd 2017 | |
| Rhagfyr 2017 | |
| Ionawr 2018 | |
| Chwefror 2018 | |
| Mawrth 2018 | |



**CD12.04 - Newidiadau mewn Amgylchiadau**

| | |
|---|---|
| Ebrill 2017 | 5.27 |
| Mai 2017 | 7.55 |
| Mehefin 2017 | 8.04 |
| Gorffennaf 2017 | 7.67 |
| Awst 2017 | 7.87 |
| Medi 2017 | 5.77 |
| Hydref 2017 | |
| Tachwedd 2017 | |
| Rhagfyr 2017 | |
| Ionawr 2018 | |
| Chwefror 2018 | |
| Mawrth 2018 | |



**MONITRO PERFFORMIAD ADRAN CYLLID**
**2017.18**

**Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth - Mesurau Cyflawni**

Uwch Reolwr Cyfrifol : Huw Ynyr

Rheolwyr Cyfrifol: Bryn Goodman Jones (Gwasanaethau Cefnogol), Gwyn Jones (Isadeiledd), Rhodri Fretwell ac Elfyn Evans (Datblygu a Cynnal a Chadw) ac Euryn Morris (Rheoli Cyfrif)

Pwprasau'r Gwasanaeth:
(Desg Gymorth) I gefnogi a rhoi'r gallu i holl wasanaethau'r Cyngor wasanaethu dinasyddion Gwynedd mewn ffordd effeithiol, hyblyg a diogel.
(Isadeiledd) Datblygu a chefnogi isadeiledd y Cyngor i ddarparu llwyfan gwydn a diogel i gynnal gwasanaethau technoleg gwybodaeth y Cyngor.
(Datblygu) Cydweithio a'n cwsmeriaid i ddatblygu ac esblygu datrysiadau arloesol mewn ymateb i anghenion busnes
(Cynnal a Chadw) Cynnal a chadw amrediad o systemau a datrysiadau technegol i'w cadw'n weithredol, effeithlon a chyfredol
(Rheoli Cyfrif) Sicrhau bod gwasanaethau'r Cyngor yn defnyddio'r dechnoleg gywir i gyflwyno gwelliannau parhaus i wasanaethau'r Cyngor

| Cyf. | Mesur Cyflawni | Sylwadau Chwarter 2 | Ch2 17/18 | Ch1 17/18 | Ch4 16/17 | Ch3 16/17 | Ch2 16/17 | Ch2 15/16 | Ch2 14/15 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| TG01 | Canran yr argaeledd rhwydwaith | Mae 4 problem yn cyfrannu at golli mynediad 0.04% i'r rhwydwaith:<br><br>24/07 - problem cyflenwad trydan yn Penrhyn<br>26/07 - problem trydan yng Nghaernarfon<br>17/08 - problem yng nghynewidfa Penygroes yn golygu bod y rhwydwaith yn arafu yn ne'r sir<br>14/09 - problem cyfnewidfa Penygroes yn ail ymddangos | 99.96% | 99.97% | 99.94% | 99.97% | 99.93% | 100% | 99.87% |

| Cyf. | Mesur Cyflawni | Sylwadau Chwarter 2 | Ch2 17/18 | Ch1 17/18 | Ch4 16/17 | Ch3 16/17 | Ch2 16/17 | Ch2 15/16 | Ch2 14/15 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| TG02 | Canran yr argaeledd Safle We Cyhoeddus | Colli cyflenwad trydan i'r Pencadlys oedd y rheswm am y 0.26% o'r amser ble collwyd defnydd o'r wefan. (26/07/2017). Cafodd y wefan ei effeithio am gyfnod rhwng 04:30 a 10:00. | 99.74% | 98.92% | 99.98% | 100% | 99.64% | 99.98% | 99.94% |
| TG05 | Cyfartaledd sgor bodlonrwydd defnyddwyr gyda'r Ddesg Gymorth | Bellach, mae gwahoddiad i bawb sy'n cofnodi galwad gyda'r Ddesg Gymorth i roi adborth am y gwasanaeth. Yn ystod Ch2 fe rannwyd 7,077 cais am adborth, gyda 255 yn ymateb. Y dewis o ran ymateb yw hapus neu anhapus ac os yn anhapus yn gwahodd adborth pellach.<br><br>Mae'r nifer sydd wedi ymateb yn gynnydd o 25% ers y chwarter diwethaf, ond canlyniad eu hymateb yn aros yn gyson.<br><br>Mae pob adborth sydd wedi ei rannu gyda'r gwasanaeth wedi cael dilyniant personol, gan obeithio bod hyn yn annog ein defnyddwyr i rannu yn agored unrhyw bryderon/cwynion sydd ganddynt. | 1. Anhapus 33 (0.46%)<br>2. Hapus 222 (3.14%)<br>3. Dim ymateb 6,822 (96.4%) | 1. Anhapus 15 (0.25%)<br>2. Hapus 176 (3.07%)<br>3. Dim ymateb 6,541 (96.66%) | Heb ei gyfrifo - problem yn parhau gyda'r system. Y cwmni wedi colli'r ddarpariaeth Gymraeg | Heb ei gyfrifo | Heb ei gyfrifo | 4.80 | 4.80 |
| TG15 | Arolwg barn datblygu: "**A oeddech yn hapus gyda'r cynigion, datrysiad ar gwasanaeth yn gyffredinol a dderbyniwyd gan yr uned datblygu?**".<br><br>1 – Oeddwn, nid oes gennyf welliant i'w gynnig<br>2 – Oeddwn, ond credaf bod lle i wella<br>3 - Nac oeddwn | Yr arolwg wedi ei rannu rhwng 11 prosiect, ond dim ond 7 ymateb wedi ei dderbyn hyd yma. 6 wedi ymateb 1 - sef hapus, dim gwelliant ac un wedi ymateb 2 - hapus, ond lle i wella. Y lle i wella yn adlewyrchu diffyg adnodd i symud blaenoriaeth prosiect yn uwch. | 1. Hapus, dim gwelliant 86%<br>2. Hapus, lle i wella - 14%<br>3. Dim yn hapus 0% | 1. Hapus, dim gwelliant 75%<br>2. Hapus, lle i wella - 25%<br>3. Dim yn hapus 0% | 1. Hapus, dim gwelliant 78%<br>2. Hapus, lle i wella - 22%<br>3. Dim yn hapus 0% | | | | |

**MONITRO PERFFORMIAD ADRAN CYLLID**
**2017.18**

**Gwasanaeth Cyllid a Chyfrifeg - Mesurau Cyflawni**

Uwch Reolwr Cyfrifol : Ffion Madog Evans

Pwrpas y Gwasanaeth:
Darparu gwasanaeth cyllid a chyfrifeg, a chynorthwyo a chefnogi gwasanaethau i fod yn effeithiol ac yn effeithlon

| Cyf. | Mesur Cyflawni | Sylwadau | 17/18 | 16/17 | 15/16 | 14/15 | 13/14 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| CD5.01 | Llwyddiant i gadw o fewn y gyllideb | Yr Adolygiad Ail chwarter o gyllidebau yn amlygu gorwariant mewn rhai Adrannau, gyda'r Aelod Cabinet a'r Penaethiaid Adran perthnasol i gymryd camau pendant i sicrhau eu bod yn aros o fewn y gyllideb erbyn diwedd y flwyddyn. Tanwariant ar benawdau Corfforaethol ac mewn 2 Adran yn golygu fod modd cynaeafu tanwariant i gynorthwyo efo'r pwysau anochel un-tro ar gyllidebau i'r dyfodol. | | -0.28% | -0.13% | -0.18% | -0.14% |
| CD5.2a | Bodlonrwydd Adrannau a Gwasanaethau efo'r gwasanaeth a chefnogaeth cyllid a chyfrifeg a dderbynnir | Mesurydd Blynyddol. Adroddir yn Chwarter 4. Sylw yn cael ei roi i'r adborth ar sut i wella ymhellach. | | 4.9 | 4.9 | 4.32 | 4.3 |
| CD5.2b | Bodlonrwydd y Tim Rheoli Corfforaethol efo'r gwasanaeth cyllid a chyfrifeg a roddir i'r Cyngor yn gorfforaethol | Mesurydd Blynyddol. Adroddir yn Chwarter 4. Sylw yn cael ei roi i'r adborth ar sut i wella ymhellach. | | 4.5 | 4.5 | 4 | 4.1 |

| Cyf. | Mesur Cyflawni | Sylwadau Chwarter 1 | Ch2 17/18 | Ch1 17/18 | Ch4 16/17 | Ch 3 16/17 | Ch 2 16/17 | Ch2 15/16 | Ch2 14/15 | Ch2 13/14 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| CD5.3 | Monitro ariannol gan gynnwys cynhyrchu adroddiadau i'r Rheolwyr Cyllidebau, Grŵp Arweinyddiaeth, Arweinyddion Portffolio, Cabinet a'r Pwyllgor Archwilio yn chwarterol, ynghyd â monitro perfformiad cynlluniau arbedion a thoriadau y Cyngor. | · Adroddwyd ar sefyllfa Adolygiad Chwarter 1 a 2 i'r Cabinet ac i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.<br>· Gofynnwyd i'r Adrannau sydd yn gorwario i adrodd i'r Cabinet i egluro'r sefyllfa gan gymryd camau pendant erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.<br>· Bu modd cynaeafu tanwariant i'w ddefnyddio i gynorthwyo gyda pwysau anochel un-tro ar gyllidebau'r Cyngor i'r dyfodol.<br>· Yn ychwanegol i'r gwaith o adrodd a monitro ar arbedion, darparwyd cefnogaeth i Benaethiaid a Rheolwyr yn ystod y cyfnod gyda'r gwaith o adnabod arbedion ar gyfer y gyfundrefn arbedion 2019 ymlaen. | Wedi adrodd ar yr Adolygiadau Chwarterol. | Wedi adrodd ar yr Adolygiad Chwarterol. | Ia | Ia | Ia | Ia | Ia | Ia |
| CD5.04 | Llunio a dosbarthu Cyllideb y Cyngor yn flynyddol ac yn unol â'r amserlen benodol a phenodedig i gyrraedd y camau allweddol angenrheidiol | · Gwaith ar Rhan 1 o Gyllideb 2018/19 wedi ei gwblhau gan gynnwys gwaith ymchwil ar gyfraddau chwyddiant, gwaith manwl ar gyllidebau staffio, demograffi, cysylltu efo cyrff allanol, trosglwyddiadau cyllideb ayyb.<br>· Gwaith gyda ail gam y gyllideb sydd yn cynnwys y broses fidiau, ffigyrau'r setliad, adolygiad ffioedd a phrisiau, diweddaru chwyddiant, trosiant, arbedion ayyb wrthi'n cael ei gwblhau.<br>· Diweddarwyd ffigyrau ar gyfer Strategaeth Ariannol 2018/19 - 2020/21, ac ar gyfer y 'Twmffat Tebygolrwydd' gyda'r rhagolygon diweddaraf.<br>· Gwaith manwl wedi ei gwblhau yn ystod y cyfnod o edrych nôl ar 10 mlynedd o Gyllidebau'r Cyngor. | Gwaith ar y rhan gyntaf o Gyllideb 2018/19 wedi ei gwblhau, gyda gwaith ar yr ail ran eisioes ar droed. | Gwaith cychwynnol wedi ei wneud. | Ia | Ia | Ia | Ia | Ia | Ia |
| CD5.5 | Cwblhad o'r Cyfrifion Terfynol (Cyfrifon Gwynedd, 3 Cyd-Bwyllgor a'r 4 Harbwr) a'r gofynion perthnasol i gynhyrchu Datganiad o'r Cyfrifon Drafft a sicrhau cymeradwyaeth o'r Datganiad o'r Cyfrifon terfynol. | · Cyfrifon Gwynedd, Cyd-Bwyllgorau a'r Harbyrau wedi eu cwblhau a'u harchwilio yn amserol ac erbyn y dyddiad statudol.<br>· Dychweliad 'Whole of Government Accounts' ac alldro refeniw a chyfalaf 2016/17 wedi eu cwblhau gan adrodd i Lywodraeth Cymru. a bellach yn destun Archwiliad gan Deloitte.<br>· Argymhellion Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru yn eu hadroddiad ISA260 wedi eu hysyried a chamau pendant i ymateb iddynt eisioes ar droed.<br>· Gan fod cwtogiad yn yr amserlen statudol i gau y cyfrifon ar y gorwel, nifer o gamau pendant wrthi'n cael eu gweithredu i geisio ymateb i'r her, gan gynnwys symud dyddiad yr adolygiad trydydd chwarter. | Cyfrifon wedi eu cwblhau yn derfynol erbyn 30 Medi a Llythyr Archwilio Blynyddol wedi ei dderbyn gan Swyddfa Archwilio Cymru. | Cyfrifon wedi eu cwblhau erbyn 30 Mehefin. | Do | Do | Do | Do | Do | Do |


**MONITRO PERFFORMIAD ADRAN CYLLID**
**2017.18**

**Gwasanaeth Taliadau Credydwyr - Mesurau Cyflawni**


Uwch Reolwr Cyfrifol : Ffion Madog Evans
Rheolwr Cyfrifol: Christopher Parry

Pwrpas y Gwasanaeth:
Talu credydwyr y Cyngor yn gywir ac yn amserol

| Cyf. | Mesur Cyflawni | Sylwadau Chwarter 1 | Ch2 17/18 | Ch1 17/18 | Ch4 16/17 | Ch3 16/17 | Ch2 16/17 | Ch2 15/16 | Ch2 14/15 | Ch2 13/14 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| CD6.01 | Canran yr anfonebau a dalwyd o fewn 30 diwrnod (ar draws y Cyngor) | Perfformiad yn gyson gyda'r chwarter blaenorol, ac yn well na chwarter 2 y llynedd. Perfformiad Addysg yn parhau i fod yn isel ar 80%, ond gwelliant ym mherfformiad Priffyrdd 90% (84% yn 2016/17). | 89% | 89% | 87% | 90% | 86% | 85% | 94% | 94% |
| CD6.02 | Canran yr anfonebau a dalwyd yn lleol o fewn 30 diwrnod (ar draws y Cyngor) | Cyflenwyr lleol wedi eu talu yn gynt na chyflenwyr eraill y Cyngor, ond yn is na chwarter 1. | 91% | 92% | 90% | 93% | 90% | 90% | | |
| CD6.03 | Addasiad i daliadau blaenorol gan y Cyngor | 2 addasiad i daliadau yn Chwarter 2, gyda cyflenwyr anghywir wedi eu talu, ond ad-daliad wedi ei dderbyn nôl yn syth. | 2 | 1 | 2 | 2 | 0 | | | |



Canran anfonebau a dalwyd o fewn 30 diwrnod
%
96
95
94
93
92
91
90
89
88
87
86
85
84
83
82
81
80
79
78
77
76
75
74
73
72
71
70
Ch 1 2014-15
Ch 2 2014-15
Ch 3 2014-15
Ch 4 2014-15
Ch 1 2015-16
Ch 2 2015-16
Ch 3 2015-16
Ch 4 2015-16
Ch 1 2016-17
Ch 2 2016-17
Ch 3 2016-17
Ch 4 2016-17
Ch 1 2017-18
CH2 2017-18
ADDYSG
PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL
CYFANSWM CYNGOR GWYNEDD
Amgylchedd



Canran o Anfonebau lleol a Dalwyd o fewn 30 Diwrnod, i'w gymharu â gweddill y Cyngor
%
94
93
92
91
90
89
88
87
86
85
84
Ch 1 2014-15
Ch 2 2014-15
Ch 3 2014-15
Ch 4 2014-15
Ch 1 2015-16
Ch 2 2015-16
CH 3 2015-16
Ch 4 2015-16
Ch 1 2016-17
CH 2 2016-17
Ch 3 2016-17
Ch 4 2016-17
Ch 1 2017-18
Ch 2 2017-18
Canran o Anfonebau lleol a Dalwyd o fewn 30 Diwrnod
Canran o Anfonebau gweddill y Cyngor a dalwyd o fewn 30 Diwrnod

**MONITRO PERFFORMIAD ADRAN CYLLID**
**2017.18**

**Gwasanaeth Buddsoddi a Rheolaeth Trysorlys - Mesurau Cyflawni**

Uwch Reolwr Cyfrifol : Dafydd L Edwards
Rheolwr Cyfrifol: Caroline L Roberts

Pwpras y Gwasanaeth:
Uchafu budd o fuddsoddi'r Gronfa Bensiwn, a chadw cyfrifon priodol;
Buddsoddi llif arian y Cyngor yn sâff, gyda llôg derbyniol;

| Cyf. | Mesur Cyflawni | Sylwadau Chwarter 2 | Ch2 17/18 | Ch1 17/18 | Ch4 16/17 | Ch3 16/17 | Ch2 16/17 | Ch2 15/16 | Ch2 14/15 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| CD13.05 | Cronfa Bensiwn - Perfformiad buddsoddi'r rheolwyr portffolio o'i gymharu â'r meincnod penodol a osodwyd ar eu cyfer. | | -0.20 | +1.1 | +0.7 | -0.80 | -0.10 | +1.0 | -0.30 |
| CD13.06 | Diogelwch arian y Cyngor wrth adnau arian mewn banciau - dadansoddiad chwarterol gan Arlingclose o'r sgôr credyd (1 ydi'r gorau, sef statws credyd AAA, 2 ydi AA+, 3 ydi AA, 4 ydi AA-, 5 ydi A+, 6 ydi A, 7 ydi A-). | Hapus bod y sgor yn sefydlog ar lefel rhwng 3 a 4. | 3.97 | 3.30 | 3.27 | 3.50 | 3.00 | 3.44 | 3.21 |
| CD13.07 | Incwm llog ar adnau arian mewn banciau i'w mesur yn erbyn cyfradd 7 diwrnod LIBID heb ei compowndio | Mis Hydref 0.36<br>Banc Lloegr wedi codi cyfradd sylfaenol o 0.25% i 0.5% ar 2 Tachwedd 2017 | 0.42 | 0.43 | 0.53 | 0.52 | 0.58 | 0.62 | 0.66 |


**MONITRO PERFFORMIAD ADRAN CYLLID**
**2017.18**


**<u>Gwasanaeth Pensiynau - Mesurau Cyflawni</u>**

Uwch Reolwr Cyfrifol : Dafydd L Edwards
Rheolwr Cyfrifol: Nick Hopkins

<u>Pwpras y Gwasanaeth:</u>
I weinyddu'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ar ran dros 40 cyflogwr gan gynnwys Cyngor Gwynedd, Cyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy er mwyn cyfrifo a thalu pensiynau yn brydlon a chywir.

| Cyf. | Mesur Cyflawni | Sylwadau Chwarter 2 | Ch 2 17/18 | Ch 1 17/18 | Ch 4 16/17 | Ch 3 16/17 | Ch 2 16/17 | Ch2 15/16 | Ch2 14/15 | Ch2 13/14 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| CD9.03 | Cyfartaledd nifer y ddyddiau gwaith a gymerwyd i anfon llythyr yn hysbysu gwerth buddion ymddeol - amcangyfrif. | | 2.40 | 7.40 | 4.40 | 4.00 | 9.70 | 11.80 | 11.50 | 7.20 |
| CD9.04 | Cyfartaledd nifer y ddyddiau gwaith a gymerwyd i anfon llythyr yn hysbysu gwerth buddion ymddeol - gwir werth. | | 5.30 | 3.00 | 2.80 | 4.30 | 2.20 | 4.20 | 5.80 | 5.80 |
| CD9.05 | Cyfartaledd nifer o ddyddiau gwaith a gymerwyd i gyflawni cyfrifiadau a thaliadau dibynyddion yn dilyn marwolaeth aelod o'r cynllun. | | 4.56 | 9.30 | 8.16 | 5.78 | 5.80 | 8.57 | 4.90 | 7.80 |


Defnyddwyr Newydd
Pensiwn Ar-lein
2,500
2,000
1,500
1,000
500
0
Ebrill 2016
Mai 2016
Mehefin 2016
Gorffennaf 2016
Awst 2016
Medi 2016
Hydref 2016
Tachwedd 2016
Rhagfyr 2016
Ionawr 2017
Chwefror 2017
Mawrth 2017
Ebrill 2017
Mai 2017
Mehefin 2017
Gorffennaf 2017
Awst 2017
Medi 2017


Achosion Gwallau Mewnol
14
12
10
8
6
4
2
0
Tachwedd
Rhagfyr
Ionawr
Chwefror
Mawrth
Ebrill
Mai
Mehefin
Gorffennaf
Awst
Medi
Achosion Gwallau Mewnol


**MONITRO PERFFORMIAD ADRAN CYLLID**
**2017.18**


**<u>Gwasanaeth Cyflogau - Mesurau Cyflawni</u>**

Uwch Reolwr Cyfrifol : Dewi A Morgan
Rheolwr Cyfrifol: Martin Morris

<u>Pwrpas y Gwasanaeth:</u>
I dalu staff yn gywir ac ar amser, ac hefyd cadw cyfrifon priodol ar gyfer talu cyrff allanol fel CThEM (HMRC)

| Cyf. | Mesur Cyflawni | Sylwadau Chwarter 2 | Ch 2 17/18 | Ch 1 17/18 | Ch 4 16/17 | Ch 3 16/17 | Ch 2 16/17 | Ch2 15/16 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| CD8.07 | Nifer achosion sydd yn arwain at addasiad pellach yn y cyflog. | 49 addasiad yn Gorffennaf. 33 addasiad yn Awst. 55 addasiad yn Medi. | 137 | 132 | 133 | 143 | 147 | 100 |
| CD8.08 | Nifer gweithwyr sydd yn cysylltu ynglyn ag unrhyw ddiffyg yn y broses talu cyflogau. | Amheuaeth bod rhai achosion yn mis Gorffennaf wedi eu cam-adrodd a felly wedi arwain at cynnydd sylweddol yn y mis. 55 alwad yn Gorffennaf, 22 yn Awst, 44 yn Medi. | 121 | 65 | 63 | 69 | 60 | 78 |
| CD8.09 | Sicrhau taliadau cywir o fewn y gofyniad amser i cyrff allanol (fel CTheM). | Dim taliadau allanol wedi eu fethu neu yn hwyr. | 100% | 100% | 100% | 100% | 100% | 100% |


Nifer Addasiadau Misol - Chwarter 2, 2017/18
Nifer
Cyfartaledd
UCL
Nifer Addasiadau
Mis
0
10
20
30
40
50
60
70
80
90
Ebrill 2015
Mai 2015
Mehefin 2015
Gorffennaf 2015
Awst 2015
Medi 2015
Hydref 2015
Tachwedd 2015
Rhagfyr 2015
Ionawr 2016
Chwefror 2016
Mawrth 2016
Ebrill 2016
Mai 2016
Mehefin 2016
Gorffennaf 2016
Awst 2016
Medi 2016
Hydref 2016
Tachwedd 2016
Rhagfyr 2016
Ionawr 2017
Chwefror 2017
Mawrth 2017
Ebrill 2017
Mai 2017
Mehefin 2017
Gorffennaf 2017
Awst 2017
Medi 2017
65
32
28
40
22
38
77
47
44
37
32
30
54
41
63
56
38
53
40
54
49
62
42
29
45
35
52
49
33
55


Galwadau ffon misol - Chwarter 2, 2017/18
Galwadau
Cyfartaledd (CL)
UCL
Nifer galwadau
Mis
0
10
20
40
50
60
38
18
24
21
17
40
14
20
31
38
19
41
28
17
30
22
20
18
30
26
13
29
13
21
11
28
26
55
22
44
Ebrill 2015
Mai 2015
Mehefin 2015
Gorffennaf 2015
Awst 2015
Medi 2015
Hydref 2015
Tachwedd 2015
Rhagfyr 2015
Ionawr 2016
Chwefror 2016
Mawrth 2016
Ebrill 2016
Mai 2016
Mehefin 2016
Gorffennaf 2016
Awst 2016
Medi 2016
Hydref 2016
Tachwedd 2016
Rhagfyr 2016
Ionawr 2017
Chwefror 2017
Mawrth 2017
Ebrill 2017
Mai 2017
Mehefin 2017
Gorffennaf 2017
Awst 2017
Medi 2017


**MONITRO PERFFORMIAD ADRAN CYLLID**
**2017.18**


**Gwasanaeth Risg ac Yswiriant - Mesurau Cyflawni (Chwarterol)**

Uwch Reolwr Cyfrifol : Dewi A Morgan
Rheolwr Cyfrifol: Gwyn Varney

Pwpras y Gwasanaeth:
Cefnogi adrannau'r Cyngor wrth iddynt asesu'r bygythiadau a chyfleon all eu hwynebu wrth ddarparu eu gwasanaethau a blaenoriaethu eu gweithgareddau ar sail yr asesiad. Amddiffyn buddiannau trethdalwyr drwy sicrhau trefniadau yswiriant priodol ac ymdrin â hawliadau

| Cyf. | Mesur Cyflawni | Sylwadau Chwarter 2 | Ch2 17/18 | Ch1 17/18 | Ch4 16/17 | Ch3 16/17 | Ch2 16/17 | Ch2 15/16 | Ch2 14/15 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| CD4.01 | Amddiffyn budd ariannol y trethdalwr: canran o hawliadau atebolrwydd cyhoeddus a wadwyd (setlwyd am £0) gan yr Uned | 6 hawliad allan o 7 wedi ei amddiffyn yn llwyddianus.<br><br>Hawliad wedi ei setlo: Difrod i ffenestr gerbyd wrth wneud gwaith strimmio gyfagos. Gwasanaeth wedi cynnal arolwg o'r safle cyn cychwyn. Penderfyniad eisioes wedi ei wneud i dalu hawliadau o'r math yma o ran egwyddor. | 85.7% | 66.6% | 81.8% | 82.4% | 90.9% | 73.1% | 78.2% |
| CD4.02 | Amddiffyn budd ariannol y trethdalwr:canran o hawliadau atebolrwydd cyhoeddus a wadwyd (setlwyd am £0) gan yr Yswirwyr | 10 hawliad allan o 11 wedi ei amddiffyn yn llwyddianus. Un o rhain efo costau does dim modd adennill. Hyn wedi ei adlewyrchu yn y canran ar gyfer Ch2 17/18.<br><br>1. Hawlydd wedi taro ei ben ar arwydd wedi ei osod rhy isel ar lamp golau stryd. Cyfarwyddyd wedi ei roi i'r gwasanaeth o'r uchder oddi ar y llawr mae rhaid i arwyddion cael eu gosod. | 81.8% | 76.9% | 76.19% | 83.3% | 92.3% | 80.8% | 79.1% |


Canran o Hawliadau Atebolrwydd Cyhoeddus a Wadwyd Gan yr Uned
100
90
80
70
60
50
40
30
20
10
0
90.9
82.4
81.8
66.6
85.7
Ch 2 16/17
Ch 3 16/17
Ch 4 16/17
Ch 1 17/18
Ch2 17/18


Canran o Hawliadau Atebolrwydd Cyhoeddus a Wdawyd Gan yr Yswirwyr
100
90
80
70
60
50
40
30
20
10
0
92.3
83.3
76.2
76.9
81.8
Ch 2 16/17
Ch 3 16/17
Ch 4 16/17
Ch 1 17/18
Ch 2 17/18

**MONITRO PERFFORMIAD ADRAN CYLLID**
**2017.18**

## <u>Gwasanaeth Archwilio Mewnol - Mesurau Cyflawni (Chwarterol)</u>

Uwch Reolwr Cyfrifol : Dewi A Morgan
Rheolwr Cyfrifol: Luned F Jones

<u>Pwrpas y Gwasanaeth:</u>
Rhoi hyder i'r dinesydd a'r Cyngor am amgylchedd reolaeth a threfniadau llywodraethu'r Cyngor trwy adrodd yn annibynnol a gwrthrychol i'r Pennaeth Cyllid a'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.



| Cyf. | Mesur Cyflawni | Sylwadau Chwarter 2 | Ch2 17/18 | Ch1 17/18 | Ch4 16/17 | Ch3 16/17 | Ch2 16/17 | Ch1 16/17 | Ch2 15/16 | Ch2 14/15 | Ch2 13/14 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| CD2.03 | Canran archwiliadau yn y Cynllun Archwilio sydd unai wedi eu cau neu sydd ag adroddiad terfynol wedi ei ryddhau. | Wedi llwyddo i ragori ar darged chwarter 2 - fodd bynnag, bydd yn angenrheidiol blaenoriaethu archwiliadau i adlewyrchu dyddiau archwiliwr am 6 mis. | 26.56% | 3.33% | 95.83% | 60.81% | 32.53% | 17.5% | 28.79% | 26.8% | 28.04% |
| CD2.09a | Canran o'r archwiliadau mewnol sydd yn cyrraedd barn "B" neu well (Cyfanswm cronnus) | 17 archwiliad o gynllun 2017/18 (6-A, 9-B, a 2-C sef Plas Ogwen a Tan y Marian) ac un archwiliad o gynllun 2016/17. | 88.89% | 100% | 85.71% | 90.7% | 88.5% | 86.7% | 73.68% | 72.73% | 76.67% |
| CD2.09b | Canran o'r archwiliadau mewnol sydd yn cyrraedd barn "B" neu well (Cyfanswm Chwarterol) | 15 archwiliad o gynllun 2017/18 (5-A, 8-B, a 2-C sef Plas Ogwen a Tan y Marian). | 86.67% | 100% | 69.23% | 94.1% | 90.9% | 86.7% | 75% | | |

| Cyf. | Mesur Cyflawni | Sylwadau Chwarter 2 | Ch2 17/18 | Ch1 17/18 | Ch4 16/17 | Ch3 16/17 | Ch2 16/17 | Ch1 16/17 | Ch2 15/16 | Ch2 14/15 | Ch2 13/14 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| CD2.14a | Cyfran o'r gweithrediadau cytunedig sydd wedi eu gweithredu yn unol â'r amserlen (mesur corfforaethol). Cytunwyd ar 205 o weithrediadau i liniaru risgiau yn 2016/17. | Allan o 205 gweithrediad cytunedig, mae gweithrediad derbyniol ar 43.90%. Disgwyl am dystiolaeth gefnogol ar gyfer 2, ac ni dderbyniwwd ymateb ar gyfer 20. (Archwiliadau Cartref Bryn Blodau, Cartref Llys Cadfan, DoLS, Ffioedd MOT, GAD, Gwasanaeth y Crwner a Trothwyon Gwirio (Cyllid) | 43.90% | 0 | | | | | | | |
| CD2.14b | Cyfran o'r gweithrediadau cytunedig sydd wedi eu gweithredu yn unol â'r amserlen (mesur corfforaethol). Cytunwyd ar 205 o weithrediadau i liniaru risgiau yn 2016/17. | Anfonwyd cais am gynnydd ar gyfer 112 o'r gweithrediadau cytunedig - mae gweithrediad derbyniol ar 90 (80.35%), disgwyl am dystiolaeth gefnogol ar gyfer 2, ac ni dderbyniwwd ymateb ar gyfer 20. (Archwiliadau Cartref Bryn Blodau, Cartref Llys Cadfan, DoLS, Ffioedd MOT, GAD, Gwasanaeth y Crwner a Trothwyon Gwirio (Cyllid) | 80.35% | 0 | | | | | | | |

Canran o'r archwiliadau mewnol fesul categori barn (Cyfanswm Cronnus)

